Medr

Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

Telerau ac Amodau Grant

Sefydliadau Addysg Bellach, Dosbarthiadau Chwech a Gynhelir gan Awdurdodau Lleol, a Dysgu Oedolion yn y Gymuned

Blwyddyn academaidd 2026/27

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg |
This document is also available in English
www.medr.cymru

Noddir gan
Lywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government

Cynnwys

1. Cyflwyniad a Chwmpas 4
    1.1 Cyflwyniad 4
    1.2 Cymhwyso'r ddogfen hon 5
    1.3 Darpariaethau cyfreithiol cyffredinol 7
2. Natur Gyfreithiol a Fframwaith y Grant 8
    2.1 Natur y cyllid grant a chymeriad cyfreithiol 8
3. Rôl a Phwerau Medr 8
    3.1 Rolau, hawliau a chyfrifoldebau Medr 8
    3.2 Talu cyllid 9
    3.3 Atal cyllid dros dro, ei gadw'n ôl, ei derfynu neu ei adennill 10
    3.4 Amrywio Telerau ac Amodau 11
4. Cyfrifoldebau'r Darparwr (Rhwymedigaethau Craidd) 11
    4.1 Cyfrifoldebau'r darparwr 11
    4.2 Trefniadau trydydd parti 14
5. Defnydd o Gyllid a Dibenion a Ganiateir 14
    5.1 Defnydd priodol o gyllid cyhoeddus (dibenion) 14
    5.2 Dibenion penodol sefydliadau addysg bellach 16
    5.3 Dibenion penodol awdurdodau lleol 17
6. Gofynion Dysgwyr a Darparu 19
    6.1 Gofynion sy'n canolbwyntio ar y dysgwr 19
7. Llywodraethu, Rheoli, a Threfnu 21
    7.1 Gofynion llywodraethu 21
    7.2 Rheoli ystadau a chyfleusterau 22
    7.3 Partneriaeth a chydweithio 22
8. Targedau, Monitro, a Pherfformiad 23
    8.1 Cymalau cyllido penodol (targedau) 23
    8.2 Gofynion monitro, perfformiad ac adrodd 24
9. Gwybodaeth, Data, a Sicrwydd 25
    9.1 Gofynion data a dyletswyddau gwybodaeth 25
    9.2 Gofynion rheolaeth ariannol a sicrwydd, a datganiadau ariannol 27
10. Datganiadau Cyfreithiol a Digwyddiadau Risg 28
    10.1 Datganiadau 28
    10.2 Digwyddiadau hysbysadwy a'u canlyniadau 30
11. Materion Ffurfiol a Rheolau'r Contract 31
    11.1 Rhoi hysbysiad 31
    11.2 Derbyn dyfarniad cyllid 31

11.3 Llofnod y Swyddog Atebol 33
11.4 Llofnod y Prif Swyddog Ariannol 33
12. Atodiadau 34
A. Rhestr Termau 34

1. Cyflwyniad a Chwmpas

1.1 Cyflwyniad

1.1.1 Mae Fframwaith Rheoleiddio Medr yn sefydlu'r amodau cyllid trosfwaol, y mae'r Telerau ac Amodau Grant hyn yn gweithredu ynddynt. Gyda'i gilydd, maen nhw'n ffurfio system gydlynol ar gyfer cyllid, sicrwydd, ac atebolrwydd.

1.1.2 Er mwyn osgoi amheuaeth, mae cyfeiriadau yn y ddogfen hon at 'fuddsoddi' yn disgrifio bwriad strategol a chanlyniadau dymunol Medr. Mae'r holl daliadau, amodau, rheolaethau, a threfniadau adennill yn gweithredu'n gyfan gwbl fel 'cyllid grant' yn unol â'r Telerau ac Amodau hyn.

1.1.3 Mae'r Telerau ac Amodau Grant yn amlinellu'r gofynion cytundebol a chyllido penodol sy'n berthnasol i gyllid Medr. Mae'r amodau hyn yn cefnogi buddsoddiad strategol Medr mewn addysg drydyddol a hyfforddiant, gan sicrhau bod cyllid cyhoeddus yn cael ei ddefnyddio'n effeithiol, yn gyfreithlon, ac mewn ffordd sy'n darparu gwerth hirdymor i ddysgwyr, cymunedau, a Chymru. Ni fydd unrhyw beth yn y ddogfen hon yn cael ei ystyried yn drech na gofynion statudol nac offerynnau llywodraethu'r darparwr.

1.1.4 Mae Medr yn dyfarnu cyllid wrth arfer ei bwerau cyllido statudol o dan Ran 3 Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022, gan gynnwys adrannau 85, 87, a swyddogaethau a drosglwyddwyd o Weinidogion Cymru, ac mae'n ddarostyngedig i'r Telerau ac Amodau hyn. Ers mis Ebrill 2026, mae Medr wedi cyllido addysg bellach a hyfforddiant, dosbarthiadau chwech ysgolion, a dysgu oedolion yn y gymuned o dan adrannau 97, 101, a 103, yn y drefn honno.

1.1.5 Mae derbyn cyllid yn amodol ar gydymffurfio â'r Telerau ac Amodau hyn, i'r graddau eu bod yn gyfreithlon ac o fewn pwerau statudol y darparwr. Mae cyfeiriadau yn y ddogfen hon at ddeddfwriaeth (boed hynny'n ddomestig neu'n rhyngwladol) yn cynnwys y ddeddfwriaeth honno fel y'i diwygiwyd, estynnwyd, neu ailddeddfwyd o bryd i'w gilydd, lle bo'n berthnasol.

1.1.6 Mae'n rhaid i ddarparwyr sicrhau bod cyllid yn cael ei ddefnyddio mewn ffordd sy'n cydymffurfio â gofynion rheoli cymorthdaliadau perthnasol, gan gynnwys Deddf Rheoli Cymorthdaliadau 2022 ac unrhyw rwymedigaethau rhyngwladol perthnasol. Y darparwr sy'n gyfrifol am asesu cydymffurfedd, gan gynnwys unrhyw rwymedigaethau cysylltiedig yn ymwneud â thryloywder neu gadw cofnodion, oni bai bod Medr yn cadarnhau fel arall yn ysgrifenedig. Mae'r gofyniad hwn yn berthnasol dim ond pan fydd rhwymedigaethau rheoli cymorthdaliadau'n berthnasol i'r darparwr a'r gweithgarwch sy'n cael ei gyllido.

1.1.7 Pan fydd cwestiynau'n codi ynglŷn â dehongli unrhyw ddarpariaeth yn y ddogfen hon, bydd Medr yn ceisio eu datrys ar ôl ymgysylltu â'r darparwr a, lle bo'n briodol, cyrff cynrychioliadol. Bydd unrhyw ddehongliad a fabwysiadir gan Medr yn rhesymol, yn gymesur, ac yn gyson ag egwyddorion cyfraith gyhoeddus a deddfwriaeth gymwys.

1.1.8 Mae cyfeiriadau at farn Medr yn golygu barn a ffurfiwyd ar sail tystiolaeth berthnasol, ar ôl ystyried sylwadau a wnaed gan y darparwr, lle bo'n ymarferol.

1.1.9 Er mwyn dileu unrhyw ansicrwydd, os bydd term, cysyniad, neu ddull rheoleiddio'n cael ei ddiffinio neu ei egluro yn Rhestr Termau Rheoleiddio Medr, ystyrir mai'r ddogfen honno yw'r ffynhonnell awdurdodol. Nid yw'r Telerau ac Amodau hyn yn ceisio ailddatgan, amrywio, na dyblygu'r diffiniadau neu'r esboniadau hynny, ond yn hytrach eu cymhwyso at ddibenion cyllid grant.

1.2 Cymhwyso'r ddogfen hon

1.2.1 Mae'r Telerau ac Amodau hyn yn gweithredu fel rhan o fframwaith rheoleiddio ehangach Medr. Maen nhw'n gweithredu dull Medr o dargedu cyllid cyhoeddus i ddarparu buddsoddiad strategol trwy gyllid grant, gan ddefnyddio offer rheoleiddio, monitro, a sicrwydd cymesur i warchod dysgwyr a chyllid cyhoeddus a chefnogi gwelliant parhaus.

1.2.2 Mae'r Telerau ac Amodau hyn yn berthnasol i'r categorïau canlynol o ddarparwyr sy'n derbyn cyllid gan Medr:

(a) sefydliadau addysg bellach (SABau);
(b) dosbarthiadau chwech a gynhelir gan awdurdodau lleol (ALlau); a
(c) darparwyr a phartneriaethau dysgu oedolion yn y gymuned.

1.2.3 Mae'r Telerau ac Amodau hyn yn berthnasol i flwyddyn academaidd 2026/2027 a byddant yn dod i rym ar y dyddiad y mae'r darparwr yn llofnodi'r dudalen dderbyn sy'n dangos tystiolaeth o gytuno i ddyfarnu cyllid.

1.2.4 Yn y Telerau ac Amodau hyn:

(a) mae'r term "rhaid" yn dynodi gofyniad gorfodol sy'n deillio o statud, rheoliad, neu amod cyllido rhwymol, y mae'n ofynnol i ddarparwyr gydymffurfio ag ef; ac
(b) mae'r term "dylai" yn dynodi gofyniad neu ddisgwyliad a anogir yn gryf fel mater o arfer da ond nad yw'n gyfreithiol rwymol.

Pan ddefnyddir y term "rhaid" yn gysylltiedig â gweithred nad yw'n cael ei gosod yn uniongyrchol gan statud neu ganllawiau statudol, mae'n dynodi amod grant rhwymol yn unig ac nid yw'n honni ei fod yn gosod dyletswydd gyfreithiol annibynnol.
Pan ddefnyddir y term "dylai", mae Medr yn disgwyl i gyrff llywodraethu (neu'r hyn sy'n cyfateb iddynt) roi sylw dyladwy i'r canllawiau a'u hystyried wrth arfer eu swyddogaethau.

1.2.5 Mae'n rhaid i'r cyllid gael ei ddefnyddio at y dibenion a amlinellir yn y Telerau ac Amodau hyn ac unrhyw ganllawiau cysylltiedig a gyhoeddir gan Medr yn unig. Yn amodol ar y gyfraith gymwys, fe allai cyllid sy'n cael ei gamgymhwyso'n sylweddol neu nad yw'n cael ei ddefnyddio at y dibenion y'u dyfarnwyd ar eu cyfer gael ei adennill i raddau'r camgymhwysiad hwnnw.

1.2.6 Mae canllawiau, fframweithiau, nodiadau technegol, cyfarwyddiadau, neu bolisïau a gyhoeddir gan Medr o bryd i'w gilydd yn berthnasol dim ond i'r graddau eu bod yn gyson â'r canlynol:

(a) y Telerau ac Amodau hyn;
(b) pwerau a dyletswyddau statudol y darparwr; ac
(c) offerynnau llywodraethu'r darparwr a deddfwriaeth gymwys.

Nid yw canllawiau'n creu dyletswyddau cyfreithiol annibynnol ynddynt eu hunain ac maent yn gweithredu fel amod grant yn unig oni bai y'u cyhoeddir yn unswydd o dan bŵer statudol penodol. Pan fydd Medr yn bwriadu cyflwyno canllawiau a fyddai'n newid gofynion cyllido'n sylweddol neu'n gosod rhwymedigaethau newydd y tu hwnt i'r rhai a amlinellir yn y Telerau ac Amodau hyn, bydd Medr, lle bo'n ymarferol, yn ymgynghori â'r darparwyr yr effeithir arnynt cyn gweithredu.

1.2.7 Ni fydd unrhyw ddiwygiad, canllaw, fframwaith, na chyfarwyddyd yn cynyddu rhwymedigaethau o sylwedd nac amlygiad ariannol yn sylweddol heb gadarnhad ysgrifenedig unswydd ei fod yn gyfystyr ag amrywio amodau grant.

1.2.8 Mae dyraniadau cyllid Medr ar gyfer blwyddyn academaidd 2026/27 yn amlinellu'r dyraniad cyllid cyffredinol i addysg drydyddol a ariennir gan Medr ar gyfer blwyddyn academaidd 2026/27. Mae dyraniadau Medr y tu allan i'r flwyddyn ariannol gyfredol yn ddarostyngedig i gyllidebau Llywodraeth Cymru bob amser, ond rydym yn awyddus i roi ymrwymiad mor gadarn â phosibl i ddarparwyr y tu hwnt i'r flwyddyn ariannol hon lle bynnag y bo'n bosibl. Rydym wedi cadw'r ymrwymiad hwn mewn cof wrth ddyrannu ar gyfer blwyddyn ariannol 2027-28.

1.2.9 Ni fydd unrhyw beth yn y Telerau ac Amodau hyn, nac mewn unrhyw ganllawiau, fframwaith, gohebiaeth, gweithgarwch sicrwydd, na thrafodion rhwng Medr a'r darparwr, yn cael ei ddehongli i roi unrhyw ddisgwyliad dilys o gyllid parhaus, adnewyddu cyllid, nac unrhyw benderfyniad neu driniaeth arbennig, ac eithrio pan fydd disgwyliad o'r fath yn deillio o gynrychiolaeth ysgrifenedig unswydd a wnaed gan Medr yn unol â phŵer statudol penodol.

1.2.10 Mae'n ofynnol i Medr, yn ôl adran 18 Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022, ystyried pwysigrwydd gwarchod y rhyddid a roddir o fewn y gyfraith i ddarparwyr addysg drydyddol yng Nghymru gynnal eu rheolaeth o ddydd i ddydd mewn ffordd effeithiol a chymwys.

1.2.11 Ni fydd unrhyw beth yn y Telerau ac Amodau hyn, nac mewn unrhyw ganllawiau, fframwaith, gohebiaeth, gweithgarwch sicrwydd, na thrafodion rhwng Medr a'r darparwr, yn drech na'r canlynol nac yn cael ei ddehongli i fod yn gwrthdaro â'r canlynol:

(a) deddfwriaeth sylfaenol neu is-ddeddfwriaeth;
(b) *Offeryn ac Erthyglau Llywodraethu* sefydliad addysg bellach, neu *Offeryn Llywodraethu* ysgol a gynhelir;
(c) pwerau a dyletswyddau statudol awdurdod lleol; neu
(d) rwymedigaethau cyfraith elusennau cymwys.

1.2.12 Pan fydd unrhyw anghysondeb yn codi, bydd yr offerynnau a'r dyletswyddau hynny'n drech yn y drefn a restrir uchod. Ni fydd y Telerau ac Amodau hyn yn cael eu dehongli i fod yn ymestyn, yn addasu, neu'n dyblygu dyletswyddau statudol, nac yn galluogi Medr i gyfarwyddo materion y tu hwnt i'w swyddogaethau cyfreithlon.

1.2.13 Ni fydd unrhyw beth yn y Telerau ac Amodau hyn yn cael ei ddehongli i fod yn ymestyn, yn addasu, neu'n dyblygu dyletswyddau a osodir gan Fesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009, nac yn galluogi Medr i gyfarwyddo cynnwys y cwricwlwm lleol y tu hwnt i'w swyddogaethau statudol.

1.2.14 Ni chaiff y darparwr aseinio, disodli, na throsglwyddo neu waredu fel arall unrhyw hawliau, buddion, rhwymedigaethau, na dyletswyddau sy'n codi o dan y Telerau ac Amodau hyn heb gydsyniad ysgrifenedig Medr ymlaen llaw, ac eithrio pan fydd y cyfryw aseinio'n digwydd trwy weithredu'r gyfraith.

1.2.15 Mae'r Telerau ac Amodau hyn yn berthnasol i gyllid a ddarperir gan Medr yn unig ac nid ydynt yn llywodraethu'r broses o gymhwyso cyllid a gafwyd o ffynonellau eraill. Mae Medr yn annog darparwyr i gynnal a datblygu ffynonellau ychwanegol o gyllid sy'n cyd-fynd yn strategol â chenhadaeth, offerynnau llywodraethu, a chynlluniau cymeradwy'r darparwr, ac sy'n ei gefnogi i gyflawni ei swyddogaethau mewn ffordd gynaliadwy a chydlynol.

1.2.16 Pan fydd anghydfod yn codi ynglŷn â dehongli neu gymhwyso'r Telerau ac Amodau hyn, bydd Medr a'r darparwr, yn y lle cyntaf, yn ceisio datrys y mater yn brydlon ac yn adeiladol trwy ymgysylltu ar lefel swyddog priodol a lefel uwch. Nid yw'r broses hon yn gyfystyr â chymrodeddu neu ddull amgen o ddatrys anghydfod ac nid yw'n cyfyngu nac yn disodli unrhyw hawliau adolygu, cwyno, neu herio sydd ar gael o dan gyfraith gyhoeddus neu statud, gan gynnwys yr hawl i geisio adolygiad barnwrol lle bo'n berthnasol.

1.3 Darpariaethau cyfreithiol cyffredinol

1.3.1 Bydd y Telerau ac Amodau hyn, ac unrhyw anghydfod neu hawliad (gan gynnwys unrhyw anghydfod neu hawliad anghytundebol) sy'n deillio ohonynt neu mewn cysylltiad â nhw, eu ffurfiant, neu eu pwnc, yn cael eu llywodraethu gan gyfraith Cymru a Lloegr a'u dehongli yn unol â hi, gan roi ystyriaeth arbennig i ddeddfwriaeth ac egwyddorion cyfraith gyhoeddus sy'n gymwys yng Nghymru, a byddant yn ddarostyngedig i awdurdodaeth llysoedd Cymru a Lloegr.

1.3.2 Os penderfynir bod neu os daw unrhyw un o ddarpariaethau'r Telerau ac Amodau hyn yn annilys, yn anghyfreithlon, neu'n anorfodadwy, bydd y ddarpariaeth honno'n cael ei thorri ac ni fydd yn effeithio ar ddilysrwydd, cyfreithlondeb, a gorfodadwyedd y darpariaethau sy'n weddill.

1.3.3 Ni fydd methiant nac oedi gan Medr i arfer unrhyw bŵer, hawl, neu rwymedi o dan y Telerau ac Amodau hyn yn gyfystyr ag ildio'r pŵer hwnnw, yr hawl honno, neu'r rhwymedi hwnnw, ac ni fydd ychwaith yn atal arfer y pŵer hwnnw, yr hawl honno, neu'r rhwymedi hwnnw, neu unrhyw un arall, yn ddiweddarach. Mae'r holl bwerau, hawliau, a rhwymedïau a ddarperir o dan y Telerau ac Amodau hyn yn gronnol ac yn ychwanegol at y rhai a ddarperir gan y gyfraith.

1.3.4 Bydd unrhyw un o ddarpariaethau'r Telerau ac Amodau hyn y bwriedir iddi, oherwydd ei natur, fod yn gymwys ar ôl i'r cyllid ddod i ben neu ar ôl y taliad cyllid olaf, yn parhau mewn grym ac effaith lawn, gan gynnwys (heb gyfyngiad) darpariaethau sy'n ymwneud ag archwilio, sicrwydd, mynediad at wybodaeth, adennill cyllid, cadw cofnodion, a chyhoeddi.

2. Natur Gyfreithiol a Fframwaith y Grant

2.1 Natur y cyllid grant a chymeriad cyfreithiol

2.1.1 Mae'r Telerau ac Amodau hyn yn gyfystyr ag amodau sydd ynghlwm wrth ddyfarnu grant cyfraith gyhoeddus ac nid ydynt yn creu partneriaeth, menter ar y cyd, asiantaeth, perthynas ymddiriedol, na pherthynas gyflogaeth rhwng Medr a'r darparwr.

2.1.2 Ni fydd unrhyw beth yn y Telerau ac Amodau hyn yn cael ei ddehongli i fod yn creu hawliau neu rwymedigaethau cytundebol rhwng Medr ac unrhyw drydydd parti, nac yn rhoi'r awdurdod i'r darparwr rwymo Medr, Llywodraeth Cymru, na Gweinidogion Cymru mewn unrhyw ffordd.

2.1.3 Bydd y darparwr yn gweithredu bob amser fel corff annibynnol, sy'n gyfrifol am ddefnyddio'r cyllid yn gyfreithlon ac yn briodol yn unol â'i bwerau statudol, offerynnau llywodraethu, a chyfraith gymwys.

3. Rôl a Phwerau Medr

3.1 Rolau, hawliau a chyfrifoldebau Medr

3.1.1 Mae Medr yn cadw'r cyfrifoldeb cyffredinol, yn unol â'i swyddogaethau statudol, am ddyrannu, monitro, a goruchwylio cyllid grant ôl-16 a ddarperir i sefydliadau addysg bellach, dosbarthiadau chwech a gynhelir gan awdurdodau lleol, a darparwyr dysgu oedolion yn y gymuned.

3.1.2 Mae gan Medr ystod o swyddogaethau statudol y gellir eu harfer, eu diwygio, neu ychwanegu atynt o bryd i'w gilydd. Wrth arfer y swyddogaethau hynny, mae'n ofynnol i Medr bwyso a mesur yr holl ystyriaethau perthnasol a diystyru ystyriaethau amherthnasol. Ni fydd unrhyw beth yn y Telerau ac Amodau hyn, neu sy'n deillio ohonynt, yn rhagfarnu, llyffetheirio, na chyfyngu'n anghyfreithlon ar allu Medr i arfer ei swyddogaethau statudol, nac yn cael ei ddehongli i orfodi Medr i arfer, neu ymatal rhag arfer, unrhyw swyddogaeth mewn ffordd benodol, heblaw fel sy'n ofynnol gan y gyfraith.

3.1.3 Mae pwerau ymyrraeth statudol Medr yn cael eu harfer yn unol â'r Datganiad o Bwerau Ymyrryd; mae'r adran hon yn cymhwyso'r pwerau hynny at ddibenion cyllido yn unig.

3.1.4 Ac yntau'n Gorff a Noddir gan Lywodraeth Cymru, mae'n rhaid i Medr fod yn fodlon bod gan y darparwyr y mae'n eu hariannu drefniadau cymesur ac effeithiol ar waith ar gyfer rheoli risg, rheolaeth ariannol, a llywodraethu, sy'n ddigonol i ddiogelu cyllid cyhoeddus a dangos gwerth am arian, gan roi ystyriaeth i raddfa, natur, a phroffil risg y cyllid a ddarperir.

3.1.5 Er mwyn hyrwyddo ei swyddogaethau statudol, caiff Medr:

(a) gyhoeddi cyfarwyddiadau sy'n ymwneud â grantiau a chanllawiau sy'n ymwneud â chyllid ôl-16;

(b) mynnu gwybodaeth, data, neu sicrwydd cymesur gan ddarparwyr at ddibenion cyllid, monitro, neu statudol;
(c) ymgymryd â gweithgarwch monitro, archwilio, a chydymffurfio, yn uniongyrchol neu drwy asiantiaid a benodwyd; a
(d) chynnig diwygiadau i amodau grant, lle bo angen, i adlewyrchu newidiadau i ddeddfwriaeth, canllawiau statudol, neu bolisi cyllid.

3.1.6 Mae gan Medr gyfrifoldeb statudol i fonitro a hyrwyddo gwelliant parhaus mewn ansawdd addysg drydyddol a hyfforddiant, fel y'i harferir trwy'r fframwaith rheoleiddio.

3.1.7 Ni fydd unrhyw beth yn y Telerau ac Amodau hyn yn gweithredu i drosglwyddo i Medr unrhyw berchnogaeth ar eiddo deallusol a grëwyd gan ddarparwr wrth gyflawni'r dibenion a ariennir, na buddiant ynddo, heblaw pan gytunir ar hynny'n unswydd yn ysgrifenedig neu pan fydd yn ofynnol yn ôl y gyfraith.

3.1.8 Yn amodol ar gyfraith gymwys, bydd y darparwr yn indemnio Medr yn erbyn unrhyw atebolrwydd, hawliadau, achosion, gofynion, colledion, costau, a threuliau a geir yn rhesymol gan Medr sy'n deillio'n uniongyrchol o fethiant sylweddol gan y darparwr i gyflawni ei rwymedigaethau i drydydd parti mewn cysylltiad â'r dibenion a ariennir, heblaw i'r graddau bod y cyfryw atebolrwydd yn deillio o esgeuluster Medr neu weithred anghyfreithlon neu anweithred ganddo.

3.1.9 Ni fydd unrhyw beth yn y Telerau ac Amodau hyn yn gosod atebolrwydd ar Medr yn gysylltiedig ag atebolrwydd a gafwyd gan y darparwr i unrhyw drydydd parti (gan gynnwys, heb gyfyngiad, cyflogeion, dysgwyr, contractwyr, neu bartneriaid), ac eithrio pan fydd y cyfryw atebolrwydd yn deillio'n uniongyrchol o weithred anghyfreithlon neu anweithred gan Medr.

3.1.10 Caiff Medr gynnig diwygiadau i'r Telerau ac Amodau hyn, pan fo'n ofynnol, i adlewyrchu newidiadau i ddeddfwriaeth, canllawiau statudol, neu bolisi cyllido. Bydd unrhyw ddiwygiad o'r fath yn dod i rym dim ond pan fydd wedi'i gadarnhau'n ysgrifenedig a'i dderbyn gan y darparwr, heblaw pan fydd amrywiad yn gwbl ofynnol yn ôl y gyfraith neu'n angenrheidiol i weithredu rhwymedigaeth statudol yn uniongyrchol.

3.2 Talu cyllid

3.2.1 Nid yw Medr yn ymrwymo i adnewyddu, ymestyn, na pharhau â chyllid y tu hwnt i dymor y cytundeb hwn. Ni fydd Medr yn atebol am unrhyw gostau na rhwymedigaethau a gafwyd gan y darparwr wrth ddisgwyl neu'n dilyn diwedd y cyfnod cyllido, nac am unrhyw gostau ychwanegol a gafwyd oherwydd bod y cyllid wedi dod i ben.

3.2.2 Dyrennir cyllid i ddarparwyr yn unol â phroffiliau darparwyr a methodolegau cyllido a gyhoeddir gan Medr o bryd i'w gilydd, fel y cânt eu diwygio neu eu diweddaru yn unol â pholisi perthnasol a gofynion deddfwriaethol.

3.2.3 Bydd yr holl daliadau cyllid yn cael eu gwneud i'r cyfrif a hysbyswyd i Medr ac a gymeradwywyd ganddo yn unig. Ni fydd taliadau'n cael eu gwneud i unrhyw gyfrif banc arall heb gytundeb ysgrifenedig Medr ymlaen llaw.

3.2.4 Yn amodol ar gydymffurfio â'r Telerau ac Amodau hyn, bydd taliadau cyllid fel arfer yn cael eu gwneud yn fisol fel a ganlyn:

(a) ar 20fed diwrnod pob mis calendr;
(b) ar 19eg diwrnod y mis calendr pan fydd yr 20fed yn ddydd Sadwrn; neu
(c) ar y diwrnod gwaith nesaf pan fydd yr 20fed yn ddydd Sul neu'n ŵyl banc yng Nghymru.

3.2.5 Gellir darparu proffil talu manwl i'r darparwr ar gais. Mae'n rhaid i geisiadau gael eu gwneud yn ysgrifenedig i BuddsoddiadaMonitro@medr.cymru, a bydd Medr yn cyflenwi'r proffil o fewn amserlen resymol.

3.2.6 Mae parhau i dalu cyllid yn amodol ar:

(a) gydymffurfedd parhaus y darparwr â'r Telerau ac Amodau hyn;
(b) cydymffurfedd â'r gofynion data a gwybodaeth a amlinellir yn adran '*9.1 Gofynion data a dyletswyddau gwybodaeth*'; a
(c) thystiolaeth, sy'n rhesymol foddhaol i Fedr, bod addysg a hyfforddiant a ariennir yn cael eu darparu yn unol â'r dibenion cymeradwy.

3.2.7 Mae'n rhaid i'r darparwr hysbysu Medr cyn unrhyw newid sylweddol arfaethedig y gellid disgwyl yn rhesymol iddo effeithio ar:

(a) gyflawni'r dibenion a ariennir;
(b) cyflawni targedau neu ganlyniadau cytunedig;
(c) llywodraethu, cynaliadwyedd ariannol, neu broffil risg.

Bydd Medr yn gweithredu'n rhesymol ac yn gymesur wrth bennu p'un a yw newidiadau o'r fath yn golygu bod angen cymeradwyaeth, amrywio cyllid, neu sicrwydd ychwanegol.

3.3 Atal cyllid dros dro, ei gadw'n ôl, ei derfynu neu ei adennill

3.3.1 Caiff Medr atal cyllid dros dro, ei gadw'n ôl, neu ei adennill pan fydd amgylchiadau gan gynnwys y canlynol (ond nid yn gyfyngedig iddynt) yn codi:

(a) pryderon ynglŷn â stiwardiaeth ariannol, llywodraethu, neu solfedd;
(b) torri'r telerau ac amodau cyllido;
(c) pan fydd y ddarpariaeth yn annigonol, wedi'i newid yn sylweddol, neu nad yw'n cyd-fynd mwyach â'r diben cymeradwy;
(d) pan fydd cyllid wedi cael ei ddefnyddio, neu yr amheuir ei fod wedi cael ei ddefnyddio, at ddibenion anghymwys neu na chaniateir.

3.3.2 Caiff Medr ddiwygio dyraniad cyllid darparwr pan fydd gwybodaeth neu ddata a ddefnyddiwyd i gyfrifo'r dyraniad hwnnw yn cael ei (d)diwygio wedi hynny neu y canfyddir ei bod/fod yn anghywir yn dilyn prosesau archwilio mewnol neu allanol, sicrwydd, neu ddilysu, neu pan fydd cyllid wedi cael ei hawlio, ei dderbyn, neu ei gymhwyso'n anghywir.

3.3.3 Pan fydd Medr yn addasu dyraniad cyllid, caiff, yn ôl ei ddisgresiwn:

(a) addasu taliadau sy'n ddyledus i'r darparwr yn y dyfodol; a/neu
(b) fynnu bod yr holl gyllid a dalwyd eisoes, neu ran ohono, yn cael ei ad-dalu.

3.3.4 Caiff Medr fynnu bod darparwr yn ad-dalu cyllid pan fydd y darparwr wedi derbyn mwy o gyllid nag y mae ganddo'r hawl iddo, gan gynnwys ond nid yn gyfyngedig i achosion o orhawlio, camadrodd, neu gamgymeriad.

3.3.5 Caiff Medr derfynu cyllid pan fydd amgylchiadau gan gynnwys y canlynol (ond nid yn gyfyngedig iddynt) yn codi:

(a) achosion difrifol neu barhaus o dorri'r Telerau ac Amodau hyn;
(b) pan fydd y ddarpariaeth a ariennir yn dod i ben, neu nad yw'n cael ei chyflwyno fel y cytunwyd mwyach;
(c) pan amlygir afreoleidd-dra ariannol, camreoli, neu gamddefnyddio cyllid cyhoeddus sylweddol.

3.3.6 Fe allai terfynu cyllid olygu bod angen ad-dalu unrhyw gyllid sydd heb ei wario, cyllid a ddefnyddiwyd yn amhriodol, neu gyllid sy'n adenilladwy fel arall, yn unol â'r Telerau ac Amodau hyn a deddfwriaeth gymwys.

3.4 Amrywio Telerau ac Amodau

3.4.1 Caiff Medr gynnig amrywiadau i'r Telerau ac Amodau hyn dim ond pan fydd hynny'n ofynnol i:

(a) weithredu newid i ddeddfwriaeth neu ganllawiau statudol;
(b) cydymffurfio â chyfarwyddyd gweinidogol rhwymol; neu
(c) adlewyrchu newid cytunedig i bolisi neu fethodoleg cyllid.

Lle bo'n ymarferol, bydd Medr yn ymgynghori â darparwyr yr effeithir arnynt cyn gweithredu unrhyw amrywiad o bwys.

3.4.2 Bydd unrhyw amrywiad a fyddai'n cynyddu rhwymedigaethau gwirioneddol neu amlygiad ariannol darparwr yn sylweddol yn dod i rym dim ond pan fydd wedi'i gadarnhau yn ysgrifenedig gan Medr a'i dderbyn yn unswydd gan y darparwr, oni bai bod yr amrywiad yn gwbl ofynnol yn ôl y gyfraith.

3.4.3 Nid yw canllawiau, fframweithiau, cyfarwyddiadau, neu nodiadau technegol a gyhoeddwyd gan Medr yn amrywio'r Telerau ac Amodau hyn ynddynt eu hunain, a byddant yn gweithredu fel amodau grant yn unig pan fyddant yn gyson â nhw.

4. Cyfrifoldebau'r Darparwr (Rhwymedigaethau Craidd)

4.1 Cyfrifoldebau'r darparwr

4.1.1 Mae'n rhaid i ddarparwyr gymryd pob cam rhesymol a chymesur i atal twyll, afreoleidd-dra, camddefnydd, camgymeriad, neu hawliadau amhriodol yn gysylltiedig â'r cyllid.

4.1.2 Mae'n rhaid i unrhyw achos gwirioneddol neu a amheuir o bwys o gamddefnyddio cyllid, twyll, neu afreoleidd-dra ariannol gael ei adrodd i Medr ar unwaith pan ganfyddir ef.

4.1.3 Mae'n rhaid i ddarparwyr reoli, gweinyddu, a rhoi cyfrif am y cyllid yn unol â'r egwyddorion a amlinellir yn Rheoli arian cyhoeddus Cymru, fel y'i diwygir o bryd i'w gilydd.

4.1.4 Yn dilyn hysbysiad gan Medr, mae'n rhaid i'r darparwr ddarparu'r gyfryw wybodaeth, dogfennau, cofnodion, barn, cadarnhad, neu sicrwydd ag y mae Medr yn ystyried eu bod yn angenrheidiol neu'n ddymunol mewn cysylltiad â'r cyllid, gan gynnwys at ddibenion sicrwydd, archwilio, monitro, neu gydymffurfio.

4.1.5 Mae'n rhaid i'r darparwr beidio â defnyddio unrhyw ran o'r cyllid ar gyfer unrhyw weithgarwch a allai, ym marn resymol Medr, ddwyn anfri ar Medr, Llywodraeth Cymru, neu gyllid cyhoeddus. Mae hyn yn cynnwys y canlynol, ond nid yn gyfyngedig iddynt:

(a) gweithgareddau neu ddibenion gwleidyddol, gan gynnwys gweithgarwch y gellid ystyried yn rhesymol ei fod yn rhoi mantais wleidyddol yn ystod cyfnodau cyn-etholiad neu etholiad;
(b) hyrwyddo ideolegau gwleidyddol, crefyddol, neu seciwlar penodol;
(c) gamblo;
(d) pornograffi;
(e) darparu neu hyrwyddo gwasanaethau rhywiol; neu
(f) unrhyw weithgarwch anghyfreithlon, anfoesgar, neu amhriodol.

4.1.6 Mae'n rhaid i'r darparwr:

(a) ddiogelu'r cyllid rhag twyll ac, yn arbennig, twyll gan ei swyddogion, ei gyflogeion, ei gontractwyr, neu ei asiantiaid, a hysbysu Medr ar unwaith pan fydd twyll yn cael ei amau, ei ganfod, neu'n debygol o ddigwydd, p'un a yw'n ymwneud yn uniongyrchol â'r cyllid ai peidio. Mae'n rhaid i'r darparwr hefyd gymryd rhan mewn unrhyw fentrau atal twyll neu sicrwydd sy'n ofynnol yn rhesymol gan Medr;
(b) cynnal a chymhwyso polisïau a gweithdrefnau effeithiol i reoli gwrthdaro buddiannau gwirioneddol, posibl, neu ganfyddedig yn gysylltiedig â'r cyllid;
(c) cydymffurfio â'r holl ddeddfau domestig a rhyngwladol, rheoliadau, gofynion statudol, a chanllawiau swyddogol perthnasol;
(d) cynnal sicrwydd yswiriant priodol a digonol ar gyfer risgiau sy'n deillio o eiddo, gweithgareddau, neu gyflawni'r dibenion a ariennir, a darparu tystiolaeth o yswiriant o'r fath ar gais gan Medr;
(e) gweithredu systemau rheoli ariannol, rheoli risg, a rheoli mewnol cadarn wrth ddefnyddio unrhyw ran o'r cyllid;
(f) cynnal trefniadau ariannol, risg, a diwydrwydd dyladwy priodol pan ddefnyddir unrhyw ran o'r cyllid i ddarparu grantiau i drydydd partïon neu gaffael nwyddau neu wasanaethau;
(g) cydweithredu'n llawn â Medr, ac unrhyw archwilwyr, arolygwyr, neu ymgynghorwyr a benodir gan Medr, at ddiben monitro cydymffurfedd, sicrwydd, gwerthuso, neu ymchwilio;
(h) hysbysu Medr ar unwaith petai unrhyw ddatganiad a wneir i Medr yn dod yn anghywir neu y byddai'n anghywir petai'n cael ei ailadrodd unrhyw bryd;
(i) hysbysu Medr yn brydlon am unrhyw gyllid a dderbynnir o ffynonellau eraill y gellid ystyried ei fod yn gyllid i gefnogi dysgwr unigol at yr un dibenion a gweithgareddau â chyllid Medr, gan gynnwys cyllid gan Lywodraeth Cymru neu gyrff cyhoeddus eraill (ond nid yn gyfyngedig iddo).

4.1.7 Pan fydd y darparwr yn prynu nwyddau neu wasanaethau wrth gyflawni'r dibenion, mae'n rhaid i gaffael o'r fath gael ei wneud mewn modd teg, tryloyw, cystadleuol, cymesur, a chynaliadwy, gan ddangos bod y darparwr:

(a) wedi cyflawni gwerth am arian a gwerth gorau wrth ddefnyddio cyllid cyhoeddus, o ystyried darbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd; ac

(b) wedi cydymffurfio â'i bolisi gwrthdaro buddiannau ar yr adeg berthnasol.

4.1.8 Caiff Medr ofyn am dystiolaeth gan y darparwr i ddangos cydymffurfedd â pharagraff 4.1.8. Fe allai tystiolaeth o'r fath gynnwys y canlynol, er enghraifft:

(a) cydymffurfedd â deddfwriaeth, rheoliadau, neu ganllawiau caffael perthnasol;

(b) cydymffurfedd â pholisïau a gweithdrefnau caffael y darparwr ei hun; a/neu

(c) mae'n rhaid i'r darparwr gyflenwi tystiolaeth o'r fath yn brydlon yn dilyn cais ysgrifenedig gan Medr.

4.1.9 Pan fydd y darparwr yn cynnwys dau neu fwy o unigolion neu gyrff, bydd eu rhwymedigaethau a'u hatebolrwydd o dan yr amodau hyn ar y cyd ac yn unigol, ac ystyrir bod diffyg neu doriad gan un unigolyn neu gorff yn ddiffyg neu'n doriad gan bob un.

4.1.10 O'r dyddiad y derbynnir yr amodau hyn gan y darparwr tan bum mlynedd ar ôl y taliad cyllid olaf, caiff Medr gyhoeddi manylion sy'n ymwneud â'r darparwr, y cyllid, a'r dibenion a ariennir mewn deunyddiau gwybodaeth hyrwyddol neu gyhoeddus. Mae'r darparwr yn cytuno i gydweithredu'n rhesymol â Medr i'w helpu i gynhyrchu deunyddiau o'r fath.

4.1.11 Mae Medr wedi ymrwymo i gefnogi iaith a diwylliant Cymru a nodau Cymraeg 2050. Disgwylir i ddarparwyr gefnogi'r ymrwymiad hwn wrth gyflawni'r dibenion a ariennir a sicrhau eu bod yn bodloni'r gofynion a amlinellir yn yr amod rheoleiddio ar gyfer y Gymraeg.

4.1.12 Pan fydd y dibenion a ariennir yn cynnwys neu'n ymwneud â darparu gwasanaethau yng Nghymru, mae'n rhaid i wasanaethau o'r fath gael eu darparu yn Gymraeg a Saesneg oni bai y byddai hynny'n afresymol neu'n anghymesur. Mae'n rhaid i wasanaethau gael eu darparu mewn modd nad yw'n trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, yn unol â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

4.1.13 Pan fydd y gwasanaeth a ddarperir yn rhan o'r dibenion a ariennir, mae'n rhaid i'r darparwr weithredu yn unol â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, unrhyw safonau iaith Gymraeg sy'n berthnasol i'r darparwr, ac amcanion Cymraeg 2050. Mae hyn yn cynnwys cymryd camau priodol, yn gyson â'r safonau hynny a natur y gweithgarwch a ariennir, i hyrwyddo a hwyluso defnyddio'r Gymraeg o fewn y gweithgareddau a ariennir. Fe allai hyn gynnwys, lle bo'n ofynnol gan safonau iaith Gymraeg perthnasol:

(a) cynhyrchu'r holl ddeunyddiau ysgrifenedig a digidol yn ddwyieithog;

(b) darparu arwyddion dwyieithog;

(c) darparu sesiynau hyfforddiant a digwyddiadau cyhoeddus yn ddwyieithog; a

(d) chymryd camau pendant i hyrwyddo a hwyluso defnyddio'r Gymraeg o fewn gweithgareddau a ariennir.

4.1.14 Nid oes unrhyw beth yn y Telerau ac Amodau hyn yn creu, yn amrywio, nac yn disodli Safonau'r Gymraeg a osodir o dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011, y mae cydymffurfio â nhw yn fater statudol a orfodir gan Gomisiynydd y Gymraeg.

4.1.15 Pan fydd y darparwr yn awdurdod lleol, mae'n rhaid i'r cyllid a ddyrennir i ysgolion gael ei ddosbarthu yn unol â Rheoliadau Cyllido Ysgolion, Datganiadau Cyllideb a Datganiadau Alldro (Cymru) 2026.

4.2 Trefniadau trydydd parti

4.2.1 Mae'n rhaid i ddarparwyr gynnal systemau a rheolaethau priodol er mwyn sicrhau diwydrwydd dyladwy parhaus yn gysylltiedig ag unrhyw gyllid a ddefnyddir i ddarparu grantiau i drydydd partïon neu gaffael nwyddau neu wasanaethau, gan gynnwys sicrwydd ynglŷn â darparu, gonestrwydd ariannol, a rheoli risg.

4.2.2 At ddibenion adran 109 Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022, mae Medr yn cydsynio drwy hyn i'r darparwyr gymhwyso a thalu ymlaen unrhyw ran o'r cyllid i gyrff sy'n cydlafurio pan fydd hyn yn angenrheidiol neu'n hwyluso cyflawni'r dibenion a ariennir. Mae cydsyniad o'r fath yn berthnasol dim ond pan fydd y corff sy'n cydlafurio yn ymwneud â darparu gweithgareddau a gymeradwywyd gan Medr, pan fydd lefel y taliad yn gymesur â rôl a chyfraniad y corff hwnnw, a phan fydd trefniadau diwydrwydd dyladwy, cytundebol, a sicrwydd priodol ar waith. Nid oes unrhyw beth yn y paragraff hwn yn newid atebolrwydd y darparwr i Medr am ddefnydd priodol o gyllid cyhoeddus neu gydymffurfio â'r Telerau ac Amodau hyn.

4.2.3 Pan fydd y darparwr yn cyflawni unrhyw ran o'r dibenion a ariennir trwy drydydd parti, is-gontractwr, neu bartner cyflawni, bydd y darparwr yn parhau i fod yn gwbl atebol i Medr am gydymffurfio â'r Telerau ac Amodau hyn. Mae'n rhaid i'r darparwr sicrhau bod trefniadau diwydrwydd dyladwy, cytundebol, a sicrwydd cymesur ar waith, gan gynnwys:

(a) cynnal cofrestr ganolog o is-gontractwyr neu bartneriaid cyflawni;
(b) dyrannu rolau a chyfrifoldebau'n glir;
(c) dulliau o fonitro ansawdd, perfformiad, a phriodoldeb ariannol; a
(d) threfniadau i fynd i'r afael â diffyg perfformiad neu ddiffyg cydymffurfedd.

Ni chaiff unrhyw drefniant darparu trwy is-gontractio neu drydydd parti weithredu mewn ffordd sy'n gwanhau atebolrwydd y darparwr am ddefnyddio cyllid cyhoeddus yn briodol neu gyflawni'r dibenion a ariennir.

5. Defnydd o Gyllid a Dibenion a Ganiateir

5.1 Defnydd priodol o gyllid cyhoeddus (dibenion)

5.1.1 Mae'n rhaid i'r cyllid gael ei ddefnyddio'n unig ac yn gyfan gwbl at y dibenion y'i dyfarnwyd ar eu cyfer ac yn unol â'r Telerau ac Amodau hyn a'r holl ganllawiau cysylltiedig a gyhoeddwyd gan Medr. Mae dyletswyddau statudol a rheoleiddio'n gymwys yn annibynnol.

5.1.2 Diben y cyllid yw helpu i ddarparu addysg ôl-16, yn bennaf i ddysgwyr sydd fel arfer yn byw yn ardal y darparwr neu'n cael eu gwasanaethu gan yr ardal honno.

5.1.3 Ceir defnyddio'r cyllid i gyflawni darpariaeth gymwys a darparu cyfleusterau priodol i ddysgwyr cymwys yn unig, yn unol â phwerau cyllido Medr o dan adran 97 Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022 ac fel yr amlinellir yn y Fframwaith Cyllido Ôl-16: Canllawiau, fel y'u diwygir o bryd i'w gilydd.

5.1.4 Mae'n rhaid i'r darparwr sicrhau bod trefniadau cadarn ar waith i:

(a) wirio hunaniaeth a chymhwysedd dysgwyr ar yr adeg cofrestru, gan gynnwys cadarnhau cymwysterau blaenorol pan fo'n berthnasol; a
(b) monitro a chofnodi presenoldeb a chyfranogiad dysgwyr yn unol â gofynion Medr.

5.1.5 Mae'n rhaid i'r holl ddarpariaeth a ariennir fod yn gyson â'r canlynol:

(a) Cyfeiriadur Rhaglenni 2026/27;
(b) y Fframwaith Cyllido Ôl-16: Canllawiau; a/neu
(c) unrhyw ganllawiau perthnasol neu gyfarwyddiadau cymhwyso eraill a gyhoeddwyd gan Medr.

Mae'n rhaid i ddarparwyr hysbysu Medr am unrhyw gynigion i gyflwyno rhaglen newydd. Mae'n rhaid cael cymeradwyaeth ysgrifenedig gan Medr (trwy BuddsoddiadaMonitro@medr.cymru) cyn dechrau darparu.

5.1.6 Mae'n rhaid peidio â defnyddio'r cyllid at unrhyw un o'r dibenion canlynol, oni bai bod Medr wedi awdurdodi hynny'n unswydd yn ysgrifenedig:

(a) ffioedd cyfreithiol a gafwyd mewn cysylltiad â'r telerau ac amodau hyn;
(b) addysg neu gymorth i ddysgwyr iau nag 16 oed, oni chaniateir hynny'n benodol trwy ganllawiau.

5.1.7 Wrth arfer ei swyddogaethau a defnyddio'r cyllid, mae'n rhaid i'r darparwr ystyried y dyletswyddau a amlinellir ym Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009, gan gynnwys y ddyletswydd i gynllunio, sicrhau, a chyflwyno cwricwlwm lleol sy'n bodloni anghenion rhesymol dysgwyr yn yr ardal. Mae'n rhaid i'r darparwr gymryd camau rhesymol i gydweithredu â darparwyr addysg a hyfforddiant ôl-16 eraill perthnasol i sicrhau bod y cwricwlwm lleol a gynigir:

(a) yn gydlynol, yn gydategol, ac yn osgoi dyblygu darpariaeth yn ddiangen;
(b) yn rhychwantu ystod eang a chytbwys o ddysgu cyffredinol a galwedigaethol; ac
(c) yn cefnogi cynnydd, dewis i ddysgwyr, ac anghenion sgiliau lleol.

Nid oes unrhyw beth yn y cymal hwn yn mynnu bod y darparwr yn gweithredu mewn modd sy'n anghyson â'i offerynnau llywodraethu, ei bwerau statudol, na'i ddyletswyddau.

5.1.8 Mae'n rhaid i'r darparwr beidio â defnyddio cyllid Medr i ddatblygu, cefnogi, na chaniatáu datblygu darpariaeth a fyddai'n tanseilio'n sylweddol darpariaeth bresennol neu arfaethedig a gyflwynir gan ddarparwr arall sy'n cael ei ariannu gan Medr o fewn yr un ardal.

5.1.9 Mae'n rhaid peidio â defnyddio'r cyllid i ddarparu addysg uwch, na chefnogi ei darparu, gan gynnwys unrhyw ddarpariaeth a ariennir trwy ffrydiau cyllido addysg uwch Medr a/neu drwy dderbyn incwm o ffioedd dysgu addysg uwch.

5.1.10 Mae'n rhaid i ddefnydd y darparwr o'r cyllid gefnogi a chyfrannu at gyflawni amcanion llesiant Llywodraeth Cymru, fel y'u hamlinellir yn y Rhaglen Lywodraethu,

ac mae'n rhaid iddo gyd-fynd â'r egwyddor datblygu cynaliadwy o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae'n rhaid i ddarparwyr weithredu mewn modd cynaliadwy, gan ddefnyddio dulliau ataliol, integredig, hirdymor, a chydweithredol sy'n cynnwys pobl ac yn adlewyrchu amrywiaeth Cymru.

5.2 Dibenion penodol sefydliadau addysg bellach

5.2.1 Bydd Estyn yn arolygu sefydliadau addysg bellach ar adegau a bennir gan ei chylch gwaith statudol a bydd yn adrodd ar ganlyniadau arolygiadau, gan gynnwys unrhyw argymhellion ar gyfer gwella. Mae'n rhaid i'r sefydliad baratoi a gweithredu cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r holl argymhellion a darparu sicrwydd o gynnydd, a fydd yn cael ei fonitro gan Estyn ac a allai gael ei rannu gyda Medr, lle bo'n briodol.

5.2.2 Pan fydd Medr yn amlygu pryderon ynglŷn â pherfformiad sefydliad trwy ddata neu weithgarwch sicrwydd sy'n gysylltiedig â chyllid, mae'n rhaid i'r sefydliad ddangos, ar gais, sut mae'r pryderon hyn yn derbyn sylw trwy ei drefniadau sicrhau ansawdd a gwella presennol.

5.2.3 Mae'n rhaid i'r sefydliad, ar gais, ddarparu copi i Medr o'i adroddiad hunanasesu diweddaraf a'i gynllun datblygu neu wella ansawdd cysylltiedig.

5.2.4 Mae'n rhaid i sefydliadau gymryd camau pendant i gefnogi datblygiad y Gymraeg fel medr yn y gweithle a medr cymdeithasol a hwyluso mwy o gyfranogiad mewn addysg a hyfforddiant a gyflwynir yn gyfan gwbl neu'n rhannol trwy gyfrwng y Gymraeg, yn unol ag amcanion Cymraeg 2050. Wrth wneud hynny, mae'n rhaid i sefydliadau gyfrannu'n strategol at ddatblygu darpariaeth addysg ôl-orfodol sy'n cefnogi cynnydd ac yn galluogi pob dysgwr, ni waeth am eu hyfedredd ieithyddol presennol, i ddatblygu ac ymestyn eu sgiliau Cymraeg.

5.2.5 Mae'n rhaid i sefydliadau gynnal strategaeth gyfredol ar gyfer darpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog sydd:

(a) yn mynd i'r afael yn benodol â dysgu a gyflwynir yn gyfan gwbl neu'n rhannol trwy gyfrwng y Gymraeg;
(b) yn galluogi dysgwyr i gynnal a datblygu sgiliau iaith Gymraeg; ac
(c) yn dangos sut mae'r sefydliad yn cyfrannu at gyflawni Cymraeg 2050.
(d) Mae'n rhaid i sefydliadau ddarparu copi o'u strategaeth ddiweddaraf i Medr ar gais.

Mae (d) wedi'i danategu gan gynllun gweithredu o leiaf, yn amlinellu'r gofynion a restrir ym mharagraff 5.2.7(a)–(h) ac yn cynnwys targedau mesuradwy, graddfeydd amser, cyfrifoldebau, a threfniadau adolygu.

5.2.6 Mae'n rhaid i sefydliadau gymryd camau pendant i ysgogi'r galw am ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog trwy feithrin ethos sy'n cefnogi'r iaith Gymraeg mewn amgylcheddau dysgu a chymdeithasol. Mae'n rhaid i sefydliadau gynllunio a chymryd camau rhesymol i gyflawni:

(a) cynnydd yn nifer y dysgwyr sy'n astudio ac yn cael eu hasesu trwy gyfrwng y Gymraeg; a
(b) mwy o ddefnydd o'r Gymraeg gan ddysgwyr yn yr ystafell ddosbarth ac mewn cyd-destunau cymdeithasol ehangach.

5.2.7 Mae Cynllun Gweithredu Addysg Bellach a Phrentisiaethau Cyfrwng Cymraeg – Tuag at Cymraeg 2050 y Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn amlinellu disgwyliadau strategol ar gyfer ehangu addysg a hyfforddiant ôl-16 cyfrwng Cymraeg a dwyieithog. Mae'n ofynnol i sefydliadau ymateb yn briodol trwy ddatblygu darpariaeth yn unol ag amcanion y Cynllun Gweithredu, gan gynnwys:

(a) targedau sefydliadol ar gyfer dysgu ac asesu cyfrwng Cymraeg a dwyieithog sy'n adlewyrchu anghenion lleol a blaenoriaethau sefydliadol;

(b) targedau i sicrhau bod o leiaf 50% o ddysgwyr sydd â TGAU Cymraeg Iaith Gyntaf yn dysgu'n ddwyieithog neu drwy gyfrwng y Gymraeg (a gofnodir fel C1 neu B1 ym maes LA26 Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru (LLWR)) yn y sectorau canlynol â blaenoriaeth:
- Iechyd a Gofal Cymdeithasol
- Gofal Plant
- Gwasanaethau Cyhoeddus
- Amaethyddiaeth
- Adeiladu
- Busnes
- Chwaraeon a Hamdden
- Diwydiannau Creadigol

(c) trefniadau cadarn ar gyfer cofnodi dewis iaith dysgwyr, cymhwysedd yn y Gymraeg, a dysgu ac asesu cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog;

(d) trefniadau i sicrhau bod pob dysgwr sydd â chymwysterau TGAU Cymraeg Iaith Gyntaf neu Ail Iaith yn derbyn elfennau dysgu cyfrwng Cymraeg a gynlluniwyd sy'n cyd-fynd â'u lefel hyfedredd, gan gefnogi'r Model Datblygu Sgiliau a amlinellir yn y Cynllun Gweithredu;

(e) trefniadau ar gyfer recriwtio a/neu ddatblygu staff sy'n gallu cyflwyno dysgu a gwasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg neu'n ddwyieithog;

(f) trefniadau partneriaeth â chyflogwyr a rhanddeiliaid eraill i gefnogi dysgu ac asesu cyfrwng Cymraeg a dwyieithog;

(g) amcanion diffiniedig ar gyfer datblygu adnoddau a gweithgareddau addysgu cyfrwng Cymraeg a dwyieithog; a

(h) threfniadau clir ar gyfer marchnata a hyrwyddo darpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog.

5.2.8 Mae'n rhaid i sefydliadau sicrhau bod data am weithgarwch dysgwyr a gofnodir o dan faes LA26 LLWR yn gysylltiedig â dysgu a gyflwynir yn gyfan gwbl neu'n rhannol trwy gyfrwng y Gymraeg yn cael ei gyflwyno'n brydlon ac yn gywir, yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru ar gofnodi dysgu cyfrwng Cymraeg.

5.2.9 Mae'n rhaid i sefydliadau hefyd sicrhau bod data'n cael ei gyflwyno'n brydlon ac yn gywir trwy faes LP67 LLWR, sy'n cofnodi'r cymhwyster Cymraeg uchaf a gyflawnwyd gan bob dysgwr cyn iddynt ddechrau eu rhaglen ddysgu.

5.3 Dibenion penodol awdurdodau lleol

5.3.1 Nid yw Estyn yn arolygu darpariaeth chweched dosbarth ysgol ar wahân, ac nid yw ychwaith yn gwneud dyfarniadau ynglŷn â darpariaeth chweched dosbarth ar wahân i effeithiolrwydd cyffredinol yr ysgol. Yn unol â hynny, ystyrir bod canfyddiadau, deilliannau, a barnau arolygu sy'n ymwneud â chamau gweithredu dilynol ar gyfer yr ysgol gyfan yr un mor berthnasol i ddarpariaeth chweched dosbarth yr ysgol. Yn

dilyn arolygiad, mae'n ofynnol i bob ysgol baratoi cynllun gweithredu ôl-arolygiad o fewn ugain (20) niwrnod gwaith o gyhoeddi'r adroddiad arolygu, sy'n amlinellu sut bydd yr ysgol yn mynd i'r afael â'r holl argymhellion a wnaed.

5.3.2 Mae gan awdurdodau lleol ddyletswydd statudol i fonitro perfformiad ysgolion ac ymyrryd pan fydd pryderon ynglŷn â safonau. Pan fydd awdurdod lleol yn comisiynu gwasanaeth gwella ysgol i gyflawni ei holl swyddogaethau gwella ysgol neu ran ohonynt, bydd y gwasanaeth hwnnw fel arfer yn cefnogi, broceru, a monitro gweithgarwch gwella ar ran yr awdurdod lleol, gan weithio mewn partneriaeth ag ef. Pan fydd Estyn yn rhoi ysgol mewn categori arolygu statudol ac yn nodi'r angen am Welliant Sylweddol neu Fesurau Arbennig, mae'n rhaid i'r awdurdod lleol ac unrhyw wasanaeth gwella ysgol a gomisiynwyd weithio'n agos gyda'r ysgol i'w chynorthwyo i ddatblygu a gweithredu'r cynllun gweithredu ôl-arolygiad. Bydd Estyn yn parhau i fonitro ysgolion o'r fath hyd nes bod Prif Arolygydd Addysg Ei Fawrhydi o'r farn nad oes angen i'r ysgol gael ei chynnwys mewn categori statudol mwyach.

5.3.3 Mae gan awdurdodau lleol a Gweinidogion Cymru bwerau ymyrryd statudol yn gysylltiedig ag ysgolion sy'n achosi pryder. Disgwylir i awdurdodau lleol arfer y pwerau hyn yn y lle cyntaf, pan fydd angen, yn unol â Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a chanllawiau statudol Llywodraeth Cymru Ysgolion sy'n achosi pryder: canllawiau statudol ar gyfer ysgolion ac awdurdodau lleol.

5.3.4 O ran darpariaeth Dysgu Oedolion yn y Gymuned, pan fydd arolygiad Estyn yn amlygu diffygion, mae'n rhaid i'r bartneriaeth Dysgu Oedolion yn y Gymuned ddatblygu a gweithredu cynllun gweithredu manwl, sy'n cynnwys amcanion clir, targedau mesuradwy, a chyfrifoldebau diffiniedig, i fynd i'r afael â'r diffygion hynny. Mae'n rhaid i bob sefydliad partner ymgysylltu'n llawn â pharatoi a chyflawni'r cynllun gweithredu. Pan fydd dyfarniad arolygu cyffredinol yn anfoddhaol, mae'n rhaid i'r cynllun gweithredu gael ei gyflwyno i Medr i'w gymeradwyo, a bydd Medr yn monitro'r broses o'i weithredu hyd nes iddo gael ei ailarolygu.

5.3.5 Pan fydd Medr yn amlygu pryderon ynglŷn â pherfformiad partneriaeth Dysgu Oedolion yn y Gymuned trwy'r Adroddiad Deilliannau Dysgwyr (LOR) blynyddol neu weithgarwch monitro neu sicrwydd arall, mae'n rhaid i'r bartneriaeth ddangos – trwy ei phrosesau datblygu a gwella ansawdd parhaus – sut mae'r pryderon hynny'n derbyn sylw. Mae'n bosibl y bydd yn ofynnol i'r bartneriaeth ddarparu tystiolaeth i Medr o gamau unioni, gan gynnwys dogfennau sy'n dangos ymgysylltiad partneriaid â llywodraethu a sut mae'r materion a amlygwyd yn llywio gwaith cynllunio gwelliant parhaus.

5.3.6 Nid yw'n ofynnol i bartneriaethau Dysgu Oedolion yn y Gymuned gyflwyno adroddiad hunanasesu blynyddol na chynllun datblygu neu wella ansawdd i Medr, fel mater o drefn. Mae hyn yn adlewyrchu ymagwedd Estyn at hunanasesu fel proses gwella ansawdd ymgorfforedig, barhaus yn hytrach nag ymarfer cydymffurfio. Fodd bynnag, mae'n rhaid i bartneriaethau gynnal trefniadau hunanasesu a datblygu neu wella ansawdd cadarn ac mae'n rhaid iddynt, ar gais, ddarparu copi i Medr o'u hadroddiad hunanasesu diweddaraf a'r cynllun datblygu neu wella ansawdd cysylltiedig.

5.3.7 Mae'n rhaid i awdurdodau lleol beidio â chynnig, na chaniatáu i ysgolion gynnig, unrhyw gymhellion ariannol a gynlluniwyd i ddylanwadu ar ddysgwyr chweched dosbarth i aros mewn darpariaeth ysgol neu eu hannog i wneud hynny. Pan amlygir arferion o'r fath, bydd Medr yn adennill y cyllid perthnasol yn llawn gan yr awdurdod lleol. Os canfyddir unrhyw achos o gamddefnyddio cyllid, bydd y cyllid yn cael ei adennill yn unol â'r Telerau ac Amodau hyn a phwerau ymyrryd.

6. Gofynion Dysgwyr a Darparu

6.1 Gofynion sy'n canolbwyntio ar y dysgwr

6.1.1 Mae'n rhaid i ddarparwyr sicrhau bod darpariaeth a ariennir yn cael ei chyflawni yn unol â'r dibenion cymeradwy, gan roi sylw dyladwy i gynnydd, cyflawniad, a lles dysgwyr.

6.1.2 Mae cydymffurfio â gofynion ansawdd, ymgysylltu â dysgwyr, a lles staff neu ddysgwyr yn cael ei lywodraethu gan yr amodau rheoleiddio perthnasol, gan gynnwys y Fframwaith Ansawdd a'r Cod Ymgysylltu â Dysgwyr. Ni fydd unrhyw beth yn y Telerau ac Amodau hyn yn cael ei ddehongli i ymestyn, addasu, dyblygu, nac ychwanegu at y gofynion hynny. Yr offerynnau hynny fydd y ffynhonnell awdurdodol o rwymedigaethau sy'n ymwneud â rhwymedigaethau ansawdd ac ymgysylltu â dysgwyr o hyd, yn amodol ar ddeddfwriaeth gymwys.

6.1.3 Mae'n rhaid i ddarparwyr gefnogi hawl dysgwyr ôl-16 i ddysgu, fel y'i diffinnir ym Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009, gan gynnwys mynediad at ystod eang o gyrsiau sy'n eu galluogi i symud ymlaen i ddysgu pellach, hyfforddiant, neu gyflogaeth. Mae'n rhaid i ddarparwyr sicrhau bod y wybodaeth, y cyngor, a'r canllawiau a roddir i ddysgwyr yn adlewyrchu'r ystod o lwybrau dysgu sydd ar gael ar draws yr ardal leol yn deg, gan gynnwys darpariaeth a gynigir gan ddarparwyr eraill, er mwyn cefnogi dewis ar sail gwybodaeth.

6.1.4 Dylai cymhwysedd dysgwyr, gofynion rhaglenni, cymhwysedd am gyllid, a lleiafswm oriau'r ddarpariaeth gydymffurfio'n llwyr â'r Fframwaith Cyllido Ôl-16: Canllawiau, y Cyfeiriadur Rhaglenni ac unrhyw ganllawiau cysylltiedig a gyhoeddwyd gan Medr.

6.1.5 Mae'n rhaid i ddarparwyr:

(a) ddarparu rhaglenni cymeradwy yn unig a gwneud hynny yn unol â gofynion y corff dyfarnu a safonau cyhoeddedig y sector;

(b) cynnal cymorth priodol a chymesur i ddysgwyr ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY), yn unol â dyletswyddau statudol; a

(c) sicrhau bod gwybodaeth, cyngor, a chanllawiau diduedd, prydlon, a phriodol ar gael i ddysgwyr, gan gynnwys ar adegau pontio allweddol, yn unol â chanllawiau Medr.

6.1.6 Mae'n rhaid i ddarparwyr sicrhau bod asesiad cychwynnol, canllawiau, a chyngor priodol yn cael eu cynnig ar yr adeg recriwtio, fel bod dysgwyr, cyn belled ag y bo'n rhesymol ymarferol, yn cofrestru ar raglenni:

(a) sy'n cyd-fynd â'u dyheadau, eu galluoedd, a'u cynlluniau gyrfa neu ddilyniant unigol; ac

(b) y maent yn rhesymol debygol o ymgysylltu â nhw a'u cwblhau'n llwyddiannus.

6.1.7 Mae'n rhaid i ddarparwyr beidio â:

(a) chodi ffioedd dysgu yn gysylltiedig ag addysg amser llawn neu ran-amser a ddarperir i ddysgwyr cymwys sy'n hŷn nag oedran ysgol gorfodol ond nad ydynt wedi cyrraedd 19 oed ar neu cyn 31 Awst yn syth cyn dechrau'r flwyddyn academaidd berthnasol;

(b) codi ffioedd derbyn neu gofrestru ar ddysgwyr o'r fath sy'n fwy na chost resymol y gwasanaethau a ddarperir; na

(c) chodi ffioedd dysgu ar ddysgwyr sy'n ymgymryd â chymwysterau Sgiliau Sylfaenol, Sgiliau Hanfodol Cymru, neu Saesneg ar gyfer Siaradwyr Ieithoedd Eraill (ESOL) hyd at ac yn cynnwys Lefel 1.

6.1.8 Mae'n rhaid i ddarparwyr gynhyrchu a chynnal Cytundeb Dysgu Unigol neu Gynllun Dysgu Unigol ar gyfer pob dysgwr sy'n ymgymryd â rhaglenni amser llawn, sy'n amlinellu nodau dysgu, trefniadau cymorth, a phrosesau adolygu.

6.1.9 Mae'n rhaid i ddarparwyr gymryd rhan yn llawn mewn cynlluniau cymorth i ddysgwyr a ariennir gan Medr yn unol â'r canllawiau penodol a gyhoeddir gan Medr bob blwyddyn, gan gynnwys cydymffurfio â gofynion cymhwysedd, gweinyddol, ac adrodd.

6.1.10 Mae'n rhaid i ddarparwyr feddu ar strategaeth gyflawni glir ar gyfer Sgiliau Hanfodol a adolygir yn rheolaidd, sy'n mynd i'r afael ag anghenion dysgwyr o ran:

(a) cyfathrebu (llythrennedd gynt);

(b) cymhwyso rhif (rhifedd gynt); a

(c) llythrennedd digidol (TGCh gynt).

6.1.11 Dylai'r strategaeth Sgiliau Hanfodol gynnwys trefniadau ar gyfer cynnal Asesiad Cychwynnol a Diagnostig yn y maes sgiliau hanfodol perthnasol ar gyfer pob dysgwr sy'n manteisio ar ddarpariaeth sgiliau hanfodol. Caiff darparwyr ddefnyddio'r system ddiagnostig o'u dewis ar gyfer sgiliau hanfodol, ar yr amod ei bod yn addas i'r diben ac yn cefnogi lleoli effeithiol a chynnydd.

6.1.12 Mae'n rhaid i ddarparwyr fod â threfniadau priodol ar waith i fodloni anghenion sgiliau hanfodol dysgwyr y mae arnynt angen addysg ar Lefel 2 neu is. Gellir bodloni'r gofyniad hwn trwy:

(a) ddarparu cymwysterau sgiliau hanfodol neu gymorth dysgu yn uniongyrchol; a/neu

(b) drefniadau ffurfiol a chofnodedig gyda darparwr arall sy'n gallu darparu'r addysg neu'r cymorth sy'n ofynnol.

Pan fydd dysgwyr yn cael eu hatgyfeirio'n allanol, mae'n rhaid i ddarparwyr oruchwylio'r broses atgyfeirio a deilliannau dysgwyr.

6.1.13 Mae'n rhaid i awdurdodau lleol sicrhau bod yr holl ddysgwyr sy'n derbyn darpariaeth chweched dosbarth yn eu hardal yn cael mynediad at:

(a) gyngor gyrfaoedd annibynnol a diduedd trwy Gyrfa Cymru; a

(b) gwybodaeth gynhwysfawr am yr holl lwybrau ôl-16 sydd ar gael, gan gynnwys addysg bellach, addysg uwch, a phrentisiaethau.

6.1.14 Mae'n rhaid i awdurdodau lleol sicrhau bod ysgolion sy'n cyflwyno darpariaeth chweched dosbarth yn eu hardal yn darparu gwasanaethau cymorth priodol i ddysgwyr. Mae'n rhaid i'r gwasanaethau hyn gynnwys anogaeth ddysgu, cymorth personol a lles, gwybodaeth am yrfaoedd, a chyngor a chanllawiau i alluogi dysgwyr i wneud dewisiadau realistig ar sail gwybodaeth a chyflawni eu potensial. Mae'n rhaid i awdurdodau lleol weithredu yn unol â Chyfarwyddiadau Gwasanaethau Cymorth i Ddysgwyr (Cymru) 2011.

7. Llywodraethu, Rheoli, a Threfnu

7.1 Gofynion llywodraethu

7.1.1 Mae gofynion llywodraethu yn cael eu rheoli gan statud a'r Fframwaith Rheoleiddio; mae'r adran hon yn ailddatgan y disgwyliadau hynny'n llawn dim ond i'r graddau y bo'n angenrheidiol i sefydlu atebolrwydd grant ac ni fydd yn dyblygu nac yn ymestyn gofynion llywodraethu rheoleiddiol.

7.1.2 Corff llywodraethu'r darparwr (neu'r hyn sy'n cyfateb iddo) sy'n gyfrifol yn y pen draw am sicrhau y cydymffurfir â'r amodau grant hyn a'r holl ganllawiau cysylltiedig.

7.1.3 Mae'n rhaid i gyrff llywodraethu (neu'r hyn sy'n cyfateb iddynt) weithredu yn unol â safonau cydnabyddedig llywodraethu da, gan gynnwys goruchwyliaeth strategol effeithiol, stiwardiaeth ariannol, rheoli risg, a defnyddio cyllid cyhoeddus yn briodol.

7.1.4 Mae'n rhaid i'r darparwr ddynodi Swyddog Atebol sydd â'r cyfrifoldeb cyffredinol am oruchwylio'r cyllid a sicrhau y cydymffurfir â'r Telerau ac Amodau hyn. Mae'n bosibl y bydd yn ofynnol i'r Swyddog Atebol ymddangos gerbron Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus Senedd Cymru, ochr yn ochr â Phrif Weithredwr Medr, ynglŷn â materion sy'n ymwneud â grantiau a ddyfernir i'r darparwr.

7.1.5 Mae'n rhaid i'r Swyddog Atebol sicrhau bod y darparwr yn cydymffurfio â'r Telerau ac Amodau Grant hyn. Er gwaethaf y dynodiad hwn, corff llywodraethu'r darparwr (neu'r hyn sy'n cyfateb iddo) sy'n atebol ar y cyd am gydymffurfio o hyd.

7.1.6 Lle bo'n briodol, mae'n rhaid i'r Swyddog Atebol roi gwybod i'r corff llywodraethu (neu'r hyn sy'n cyfateb iddo) ar unwaith os yw'n ymddangos bod unrhyw gam gweithredu, penderfyniad, neu bolisi arfaethedig yn anghydnaws â'r Telerau ac Amodau hyn. Os bydd y corff llywodraethu (neu'r hyn sy'n cyfateb iddo) yn penderfynu bwrw ymlaen sut bynnag, mae'n rhaid i'r Swyddog Atebol roi gwybod i Brif Weithredwr Medr yn ysgrifenedig yn ddi-oed.

7.1.7 Mae'n rhaid i'r Swyddog Atebol hysbysu Medr ar unwaith am unrhyw achosion lle nad yw gwrthdaro buddiannau neu faterion chwythu'r chwiban wedi cael eu rheoli yn unol â pholisïau'r darparwr. Bydd gwybodaeth o'r fath yn cael ei thrin yn sensitif ac yn gyfrinachol ac ni fydd yn cael ei rhannu y tu hwnt i Medr heb gydsyniad y darparwr ymlaen llaw, heblaw pan fydd datgelu'n ofynnol yn ôl y gyfraith.

7.1.8 Nid oes unrhyw beth yn y Telerau ac Amodau hyn yn mynnu bod Swyddog Atebol yn gweithredu mewn modd a fyddai'n gwrthdaro â'i ddyletswyddau statudol,

ymddiriedol, rheoleiddiol, na chyfraith elusennau. Pan fydd gwrthdaro o'r fath yn codi, mae'n rhaid i'r Swyddog Atebol weithredu yn unol â'r dyletswyddau hynny a hysbysu Medr cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol.

7.1.9 Mae'n rhaid i ddarparwyr sefydlu, gweithredu, ac adolygu'n barhaus bolisïau cydraddoldeb sy'n ymdrin â chyflogaeth, cymryd gwirfoddolwyr ymlaen, a darparu gwasanaethau, yn unol â Deddf Cydraddoldeb 2010 a dyletswyddau cysylltiedig.

7.1.10 Mae'n rhaid i ddarparwyr ystyried arfer da cydnabyddedig o ran cyflogau a chydnabyddiaeth ariannol, gan gynnwys tegwch, tryloywder, cymesuredd, yr angen i recriwtio a chadw staff, a fforddiadwyedd o fewn yr adnoddau sydd ar gael, yn unol â'r fframweithiau llywodraethu, rheoleiddio, a thâl sy'n berthnasol i'w sector.

7.1.11 Mae'n rhaid i ddarparwyr sicrhau tryloywder ac atebolrwydd o ran cydnabyddiaeth ariannol uwch aelodau staff ac mae'n rhaid iddynt ddatgelu gwybodaeth am gyflogau uwch yn unol â gofynion adrodd ariannol, archwilio, a chyfrifyddu perthnasol eu sector.

7.1.12 Mae'n rhaid i ddarparwyr gydymffurfio â'r holl ofynion cyfreithiol a rheoleiddio sy'n ymwneud ag ymddygiad staff a chofrestru proffesiynol, gan gynnwys:

(a) sicrhau bod yr holl staff addysgu a chymorth dysgu wedi'u cofrestru gyda Chyngor y Gweithlu Addysg (CGA) cyn dechrau cyflogaeth;
(b) atgyfeirio materion sy'n ymwneud â chamymddwyn proffesiynol, pryderon ynglŷn â chymhwysedd, neu euogfarnau troseddol perthnasol i CGA pan fydd aelod o staff wedi cael ei ddiswyddo, neu y byddai wedi cael ei ddiswyddo pe na byddai wedi ymddiswyddo; a
(c) hysbysu Medr yn ysgrifenedig am unrhyw atgyfeiriadau i CGA sy'n ymwneud â materion y gellid ystyried yn rhesymol eu bod yn cynnwys twyll. At ddibenion y paragraff hwn, mae twyll yn cynnwys (er enghraifft) rhoi dyfarniadau'n amhriodol trwy gamliwio cyrhaeddiad dysgwr, lle y gallai hyn fod yn gyfystyr â budd i'r sefydliad a/neu, yn dibynnu ar delerau cytundebol, yr unigolyn dan sylw.

7.2 Rheoli ystadau a chyfleusterau

7.2.1 Mae'n rhaid i ddarparwyr sicrhau bod yr holl ystadau a chyfleusterau a ddefnyddir i gyflwyno darpariaeth ôl-16 yn cael eu rheoli'n effeithiol, yn effeithlon, ac yn ddarbodus, gan gynnwys cydymffurfio'n llawn â'r holl ddeddfwriaeth a safonau iechyd, diogelwch, a lles perthnasol bob amser.

7.2.2 Lle bo'n briodol, mae'n rhaid i ddarparwyr adolygu eu hasedau tir ac adeiladau'n rheolaidd, er mwyn sicrhau addasrwydd i'r diben, gwerth am arian, a rhesymoli neu waredu asedau nad oes eu hangen mwyach i gyflawni'r dibenion a ariennir.

7.3 Partneriaeth a chydweithio

7.3.1 Mae'n rhaid i ddarparwyr sefydlu a chyfranogi'n weithredol mewn trefniadau cydweithio effeithiol gyda phartneriaid perthnasol, gan gynnwys:

(a) ysgolion;
(b) sefydliadau addysg bellach;
(c) sefydliadau addysg uwch; ac

(d) awdurdodau lleol,

lle bo'n briodol, i helpu dysgwyr i wneud cynnydd a phontio'n effeithiol a lleihau dyblygu darpariaeth yn ddiangen gymaint â phosibl.

7.3.2 Pan fydd y darparwr yn ddarostyngedig i ddyletswyddau o dan Fesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009, fe ddylai gymryd rhan yn adeiladol mewn trefniadau partneriaeth lleol a sefydlwyd i gefnogi cynllunio'r cwricwlwm, cydweithio, a chynnydd dysgwyr. Dylai cyfranogiad o'r fath gynnwys ymgysylltu â phrosesau cynllunio lleol cytunedig, rhannu gwybodaeth berthnasol am y cwricwlwm, a chyfrannu at ddatrysiadau ar y cyd pan amlygir bylchau neu aneffeithlonrwydd yn y ddarpariaeth.

7.3.3 Dylai'r holl ddarpariaeth sydd wedi'i seilio ar bartneriaeth gael ei hategu gan gytundebau clir a chofnodedig sy'n diffinio rolau, cyfrifoldebau, trefniadau sicrhau ansawdd, strwythurau llywodraethu, a llinellau atebolrwydd unigol.

7.3.4 Pan fydd darparwr yn aelod o bartneriaeth Dysgu Oedolion yn y Gymuned, bydd Medr yn atebol i'r derbynnydd grant a enwyd, a fydd yn gyfrifol am gydymffurfio â'r Telerau ac Amodau hyn ar ran y bartneriaeth. Mae'n rhaid i drefniadau partneriaeth ddyrannu rolau, cyfrifoldebau, a dulliau sicrwydd yn glir, ond ni fyddant yn gwanhau atebolrwydd derbynnydd y grant i Medr.

7.3.5 Pan fydd y darparwr yn aelod o bartneriaeth Dysgu Oedolion yn y Gymuned, mae'n rhaid iddo ddarparu copïau i Medr o'r adroddiadau hunanasesu diweddaraf a dogfennau ansawdd cysylltiedig ar gais.

8. Targedau, Monitro, a Pherfformiad

8.1 Cymalau cyllido penodol (targedau)

8.1.1 Dylai darparwyr gydymffurfio â'r holl ofynion penodol i raglen a amlinellir yn y Fframwaith Cyllido Ôl-16: Canllawiau, y Cyfeiriadur Rhaglenni ac unrhyw ganllawiau cysylltiedig a gyhoeddwyd gan Medr, fel y'u diwygir o bryd i'w gilydd.

8.1.2 Dylai sefydliadau addysg bellach gyflawni o leiaf 97% o'u targed ariannol ar gyfer darpariaeth ran-amser. Bydd darpariaeth islaw'r trothwy hwn yn arwain at adennill y diffyg yn llawn.

8.1.3 Caiff sefydliadau addysg bellach ddefnyddio hyd at 5% o'u dyraniad darpariaeth ran-amser fel Cronfa Gweithgareddau Ymgysylltu â Dysgwyr (LEAF). Mae'n rhaid cyflwyno adroddiad terfynol a Datganiad Gwariant diwedd blwyddyn i Medr fis ar ôl dyddiad rhewi LLWR perthnasol mis Medi fan bellaf, yn cadarnhau p'un a ddefnyddiwyd y gronfa, a sut.

8.1.4 Caiff awdurdodau lleol gadw hyd at 3% o'r cyllid a ddyrannwyd ar gyfer darpariaeth chweched dosbarth i'w wario ar wasanaethau canolog a gweinyddol o fewn eu hadran addysg.

8.1.5 Caiff darparwyr Dysgu Oedolion yn y Gymuned gadw hyd at 3% o'r cyllid a ddarparwyd o dan y Grant Dysgu yn y Gymuned i'w wario ar wasanaethau canolog a gweinyddol.

8.1.6 Caiff darparwyr Dysgu Oedolion yn y Gymuned ddefnyddio hyd at 5% o'r dyraniad Grant Dysgu yn y Gymuned fel Cronfa Gweithgareddau Ymgysylltu â Dysgwyr (LEAF). Mae'n rhaid cyflwyno adroddiad terfynol a Datganiad Gwariant diwedd blwyddyn i Medr fis ar ôl dyddiad rhewi LLWR perthnasol mis Medi fan bellaf, yn cadarnhau p'un a ddefnyddiwyd y gronfa, a sut.

8.1.7 Pan nodir bod ffrwd gyllid yn drosiannol neu y gallai gael ei chyfnewid, bydd parhau y tu hwnt i'r flwyddyn academaidd bresennol yn ddisgresiynol ac yn amodol ar benderfyniadau cyllido yn y dyfodol. Nid yw cyfeiriad yn y Telerau ac Amodau hyn yn creu unrhyw ddisgwyliad dilys o gyllid parhaus neu gyfnewid.

8.1.8 Mae adennill sy'n gysylltiedig â throthwyon darparu yn adlewyrchu gorgyllido o gymharu â'r ddarpariaeth wirioneddol, nid cosb.

8.2 Gofynion monitro, perfformiad ac adrodd

8.2.1 Mae'r Telerau ac Amodau hyn yn amlinellu dulliau monitro, adrodd, a sicrwydd sy'n cyfateb i'r rhai a sefydlwyd yn y Fframwaith Rheoleiddio. Bydd dulliau monitro, amlder, a methodoleg yn cael eu llywodraethu gan y Fframwaith Rheoleiddio yn unig, a bydd y Telerau ac Amodau hyn ond yn berthnasol i ganlyniadau cyllido.

8.2.2 Mae'n rhaid i'r derbynnydd grant fonitro sut mae'r cyllid yn cael ei ddefnyddio a'i wario yn weithredol ac yn barhaus drwy gydol cyfnod y grant i sicrhau y cydymffurfir yn llawn â'r Telerau ac Amodau hyn ac unrhyw ganllawiau cysylltiedig.

8.2.3 Wrth bennu gweithgarwch monitro a sicrwydd sy'n gysylltiedig â chyllid, bydd Medr yn gweithredu'n gymesur a, lle bo'n rhesymol ymarferol, bydd yn ystyried y sicrwydd sydd ar gael trwy brosesau statudol neu reoleiddio eraill.

8.2.4 Mae'n rhaid i ddarparwyr:

(a) gyflwyno'r cyfryw wybodaeth, ffurflenni, dogfennau, ac adroddiadau i Medr ag y gallent fod yn ofynnol gan Medr yn rhesymol o bryd i'w gilydd i fonitro cydymffurfedd â'r Telerau ac Amodau hyn;

(b) ymgysylltu'n adeiladol â swyddogion Medr ac unrhyw gynrychiolwyr a benodwyd gan Medr at ddibenion sicrwydd, monitro, neu adolygu; a

(c) sicrhau bod y Swyddog Atebol (neu unigolyn arall a gytunwyd gan Medr), ynghyd ag unrhyw unigolion eraill perthnasol, yn mynychu cyfarfodydd â Medr, fel y bo'n rhesymol ofynnol.

8.2.5 Pan fydd Medr yn gofyn yn rhesymol at ddibenion sicrwydd neu fonitro, mae'n rhaid i'r darparwr allu dangos sut mae wedi ystyried ei ddyletswyddau o dan Fesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009 wrth gynllunio a chyflwyno'r ddarpariaeth a ariennir. Fe allai tystiolaeth o'r fath gynnwys dogfennau cynllunio'r cwricwlwm, cytundebau partneriaeth, neu gofnodion penderfyniadau ar y cyd, ond ni fydd Medr yn mynnu bod dogfennau newydd yn cael eu creu yn unswydd at y diben hwn pan fydd tystiolaeth addas yn bodoli eisoes.

8.2.6 Fel gofyniad parhaus, mae'n rhaid i ddarparwyr:

(a) gyflwyno gwybodaeth gynllunio yn unol â'r gofynion data ac adrodd a amlinellir yn y Telerau ac Amodau hyn a chanllawiau cysylltiedig (e.g. ar gyfer y Fframwaith Cyllido ÔI-16: Canllawiau); ac
(b) ar gyfer sefydliadau addysg bellach a darparwyr dysgu oedolion yn y gymuned, cyflwyno data prydlon a chywir trwy Gofnod Dysgu Gydol Oes Cymru (LLWR) yn unol â chanllawiau'r LLWR; neu
(c) ar gyfer dosbarthiadau chwech ysgolion a gynhelir gan awdurdod lleol, cyflwyno ffurflen Casglu Data ÔI-16 (P16DC) lawn, gywir, a chyflawn ar gyfer 2026/27 erbyn mis Hydref 2027 fan bellaf.

8.2.7 Mae'n rhaid i ddarparwyr ymgysylltu'n llawn â gweithgarwch monitro a sicrwydd Medr, gan gynnwys (er enghraifft) monitro sy'n ymwneud â'r canlynol:
(a) ansawdd y ddarpariaeth;
(b) perfformiad yn erbyn dangosyddion a thargedau cytunedig; a
(c) chydymffurfio â gofynion pontio a rhannu data dysgwyr.

8.2.8 Pan amlygir pryderon, caiff Medr gyhoeddi hysbysiadau gwella ac fe allai fynnu bod darparwyr yn cymryd camau penodol o fewn graddfeydd amser diffiniedig. Mae dulliau monitro ac uwchgyfeirio'n dilyn y Datganiad o Bwerau Ymyrryd ac fe'u cymhwysir yn gymesur at ddibenion cyllido.

9. Gwybodaeth, Data, a Sicrwydd

9.1 Gofynion data a dyletswyddau gwybodaeth

9.1.1 Mae'r gofynion data, sicrwydd, a gwybodaeth a amlinellir yma yn ailadrodd y rhai a sefydlwyd o dan y Fframwaith Rheoleiddio. Mae'r Telerau ac Amodau hyn yn berthnasol yn unig i ofynion data sy'n angenrheidiol ar gyfer cyfrifo ac adennill cyllid.

9.1.2 Mae'r darparwr yn cydnabod bod Medr, sy'n un o gyrff hyd braich Llywodraeth Cymru, yn ddarostyngedig i ofynion:
(a) Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 (FOIA);
(b) Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 (EIR);
(c) Deddf Diogelu Data 2018 (DPA); a
(d) Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data y Deyrnas Unedig (GDPR y DU).

9.1.3 Bydd Medr yn pennu, yn ôl ei ddisgresiwn ac yn unol â'r gyfraith gymwys:
(a) p'un a yw'n ofynnol i unrhyw wybodaeth a gafwyd o dan y cyllid neu mewn cysylltiad ag ef gael ei datgelu o dan y FOIA neu'r EIR; a/neu
(b) b'un a yw unrhyw wybodaeth o'r fath wedi'i heithrio rhag ei datgelu.

9.1.4 Caiff Medr rannu gwybodaeth a data a gyflwynwyd gan ddarparwyr â chyrff atal twyll a thrydydd partïon eraill perthnasol er mwyn atal, canfod, neu ymchwilio i dwyll. Bydd unrhyw ddata personol a brosesir yn cael ei drin yn unol â Hysbysiad Preifatrwydd Medr a deddfwriaeth diogelu data berthnasol.

9.1.5 Mae'n rhaid i ddarparwyr gyflenwi i Medr, neu unrhyw gorff sy'n gweithredu ar ran Medr, ddata prydlon, cywir, cyflawn, a dibynadwy yn ymwneud â dysgwyr, rhaglenni dysgu, gweithgarwch darparu, deilliannau, a dyfarniadau, ynghyd ag unrhyw wybodaeth arall sy'n ofynnol, ar y gyfryw ffurf ac o fewn y cyfryw raddfeydd amser

ag y gallai fod yn ofynnol gan Medr yn rhesymol at ddibenion cyfrifo cyllid, monitro, dadansoddi, neu adrodd.

9.1.6 Dylai darparwyr gymryd rhan mewn trefniadau cynllunio ar gyfer pontio dysgwyr a rhannu data i gefnogi cynnydd dysgwyr, yn unol â disgwyliadau Medr a chanllawiau Llywodraeth Cymru, gan gynnwys Pontio ôl-16 a rhannu data yn effeithiol: canllaw byr i ysgolion a darparwyr dysgu ôl-16.

9.1.7 Mae'n rhaid i ddarparwyr gyflwyno data a gasglwyd ganddynt i Medr, neu gyrff sy'n gweithredu ar ran Medr, trwy'r casgliadau data perthnasol. Ar hyn o bryd, mae'r rhain yn cynnwys:

(a) Casglu Data Ôl-16 (P16DC) ar gyfer dosbarthiadau chwech ysgolion; a
(b) Chofnod Dysgu Gydol Oes Cymru (LLWR) ar gyfer sefydliadau addysg bellach a darparwyr dysgu oedolion yn y gymuned.

9.1.8 Gan y bydd y data a gyflwynir yn cynnwys data personol sy'n ymwneud â dysgwyr, mae'n rhaid i ddarparwyr sicrhau, ar yr adeg casglu, bod dysgwyr yn cael gwybod:

(a) pam mae eu data'n cael ei gasglu;
(b) y bydd eu data personol yn cael ei gyflwyno i Medr (neu gyrff sy'n gweithredu ar ran Medr) trwy'r systemau P16DC neu LLWR; a
(c) ble i gael fersiynau mwyaf cyfredol Gwybodaeth rheoli data: hysbysiad preifatrwydd neu Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru: hysbysiad preifatrwydd.

Mae'n rhaid i ddarparwyr sicrhau y cydymffurfir â'r holl rwymedigaethau diogelu data perthnasol.

9.1.9 Mae data a gyflwynir gan ddarparwyr ac a ddefnyddir gan Medr at ddibenion cyllido a monitro yn ddarostyngedig i wiriadau dilysu, gwirhau, ac archwilio. Amlinellir diffiniadau o ddata a gofynion yn:

(a) Nodiadau cwblhau technegol Casglu Data Ôl-16 ar gyfer awdurdodau lleol ac ysgolion; a
(b) Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru: Llawlyfr cymorth i ddefnyddwyr ar gyfer darparwyr dysgu.

9.1.10 Mae'n rhaid i ddarparwyr gydymffurfio â'r Fframwaith Cyllido Ôl-16: Canllawiau, y Cyfeiriadur Rhaglenni, a naill ai Adrodd gwybodaeth am ysgolion a disgyblion: rheoliadau neu'r Egwyddorion Rheoli Data Ôl-16 (sydd ar gael trwy'ch manylion mewngofnodi LLWR-Inform), fel y bo'n berthnasol.

9.1.11 Mae'n rhaid i sefydliadau addysg bellach a darparwyr dysgu oedolion yn y gymuned gydymffurfio ag *Egwyddorion Rheoli Data LLWR*, sydd ar gael ar LLWR-Inform, sy'n gosod disgwyliadau yn gysylltiedig â'r canlynol:

(a) cywirdeb – sicrhau bod gwerthoedd data'n gywir, yn gyflawn, ac yn ddiamwys;
(b) prydlondeb – sicrhau bod cyflwyniadau'n cael eu gwneud o fewn y graddfeydd amser gofynnol;
(c) uniondeb – sicrhau bod y data'n adlewyrchu'r ddarpariaeth a deilliannau dysgwyr yn gywir;
(d) cyflawnder – sicrhau bod yr holl setiau data gofynnol yn cael eu cyflwyno; a
(e) chysondeb – sicrhau cydlyniad ar draws yr holl setiau data a gyflwynir.

9.1.12 Pan dalwyd cyllid ar sail data amcangyfrifedig neu dros dro, mae Medr yn cadw'r hawl i adennill unrhyw ordaliad a amlygwyd pan fydd y data gwirioneddol wedi cael ei gyflwyno a'i ddilysu.

9.1.13 Fe allai cyflwyno data anghywir, anghyflawn, neu hwyr arwain at addasiadau i gyllid, cadw taliadau yn y dyfodol yn ôl neu eu hatal dros dro, neu adennill cyllid, yn unol â'r Telerau ac Amodau hyn.

9.2 Gofynion rheolaeth ariannol a sicrwydd, a datganiadau ariannol

9.2.1 Mae'n rhaid i Medr fod yn fodlon bod corff llywodraethu'r darparwr (neu'r hyn sy'n cyfateb iddo) wedi sefydlu trefniadau effeithiol ar gyfer rheolaeth fewnol a'i fod yn cynnal y trefniadau hynny, gan gynnwys systemau rheolaeth ariannol, cyfrifyddu, sicrwydd, a rheoli risg cadarn. Mae'n rhaid i'r trefniadau hynny fod yn ddigonol i alluogi'r darparwr (gan gynnwys unrhyw is-gwmnïau neu endidau y mae'n eu rheoli neu'n dylanwadu arnynt yn sylweddol) i fonitro a rheoli ei gynaliadwyedd ariannol, dangos y gall barhau i weithredu fel busnes gweithredol, a datblygu a gweithredu strategaethau hirdymor yn seiliedig ar dybiaethau rhesymol ac y gellir eu cefnogi. Mae'n rhaid i'r trefniadau hefyd fod yn ddigonol i sicrhau bod cyllid a ddyfarnwyd gan Medr yn cael ei ddefnyddio'n unswydd at y dibenion y'i dyfarnwyd ar eu cyfer.

9.2.2 Yn rhinwedd ei swyddogaeth fel Swyddog Atebol, caiff Prif Weithredwr Medr godi pryderon ffurfiol gyda chorff llywodraethu'r darparwr (neu'r hyn sy'n cyfateb iddo) a/neu ei bwyllgor archwilio, lle bo'n berthnasol, pan fydd gwendidau neu risgiau o bwys yn cael eu hamlygu yn gysylltiedig â materion ariannol, trefniadau llywodraethu, neu systemau rheolaeth fewnol y darparwr.

9.2.3 Mae'n rhaid i awdurdodau lleol baratoi eu cyfrifon blynyddol cyfunol yn unol â Chyfarwyddyd Cyfrifon Llywodraeth Cymru, a gyhoeddwyd o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, a chan gydymffurfio â'r canlynol:

(a) Rheoliadau Cyllido Ysgolion, Datganiadau Cyllideb a Datganiadau Alldro (Cymru) 2026;
(b) Rheoliadau Addysg (Datganiadau Cyllideb) (Cymru) 2002; a
(c) Rheoliadau Addysg (Datganiadau Alldro) (Cymru) 2003.[1]

Mae'n rhaid i gyfrifon gael eu cymeradwyo a'u llofnodi yn unol â Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 a'r holl ofynion cyfrifyddu llywodraeth leol eraill sy'n berthnasol.

9.2.4 Mae'n rhaid i ddarparwyr sicrhau bod datgeliadau rheoli risg, asesiadau busnes gweithredol, datganiadau llywodraethu, a datgeliadau naratif cysylltiedig yn cael eu paratoi a'u hadrodd yn unol â'r fframwaith adrodd ariannol statudol sy'n berthnasol i'w sector, ynghyd â'u cynnwys mewn datganiadau ariannol archwiliedig, lle bo'n ofynnol.

9.2.5 Pan fo'n ofynnol gan Medr, mae'n rhaid i ddarparwyr gyhoeddi copïau o'u datganiadau ariannol cyfunol ar eu gwefan o fewn y graddfeydd amser a nodwyd gan Medr, gan sicrhau hygyrchedd a thryloywder.

[1] Bydd yr offerynnau hyn yn cael eu disodli gan Reoliadau Cyllido Ysgolion, Datganiadau Cyllideb a Datganiadau Alldro (Cymru) 2026, a fydd yn berthnasol i flynyddoedd ariannol o 1 Ebrill 2027 ymlaen.

9.2.6 Mae'n rhaid i'r darparwr gadw'r Telerau ac Amodau Grant hyn a'r holl gofnodion, dogfennau, a thystiolaeth gwreiddiol sy'n ymwneud â'r cyllid am naill ai chwech (6) neu ddeng (10) mlynedd o ddyddiad y taliad olaf, yn unol â Rhestr Cadw a Gwaredu Llywodraeth Cymru, ac mae'n rhaid iddo sicrhau bod cofnodion o'r fath ar gael ar gais.

9.2.7 Mae'n rhaid i ddarparwyr gydweithio'n llawn â Medr, Archwilio Cymru, ac unrhyw gorff gorfodi neu reoli cymorthdaliadau yn y Deyrnas Unedig, ac mae'n rhaid iddynt ganiatáu mynediad rhesymol at safleoedd, cofnodion, systemau, a phersonél, fel sy'n ofynnol yn ôl y gyfraith, mewn cysylltiad â derbyn, defnyddio, archwilio, neu ymchwilio i gyllid grant Medr.

9.2.8 O dan baragraff 17 Atodlen 8 Deddf Llywodraeth Cymru 2006, mae gan Archwilydd Cyffredinol Cymru hawliau statudol i gael mynediad at ddogfennau, cofnodion, a gwybodaeth yn ymwneud â'r darparwr pan fydd mynediad o'r fath yn ofynnol i arfer swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol. Caiff yr Archwilydd Cyffredinol, a'r rhai sy'n gweithredu ar ei ran, fynnu bod unrhyw unigolyn sy'n dal neu'n rheoli dogfennau perthnasol yn rhoi'r cyfryw gymorth, esboniadau, a gwybodaeth ag sy'n rhesymol ofynnol, a chaiff fynnu presenoldeb at y diben hwnnw. Ceir arfer yr hawliau hyn ar bob adeg resymol.

9.2.9 Fe allai methiant i gydymffurfio ag unrhyw gais cyfreithlon a rhesymol am wybodaeth a wnaed gan Medr, Archwilydd Cyffredinol Cymru, neu unrhyw gorff arall sy'n arfer pwerau gorfodi neu archwilio statudol, fod yn gyfystyr â thorri'r Telerau ac Amodau hyn ac fe allai arwain at gamau unioni neu orfodi gan Medr, gan gynnwys atal cyllid dros dro, ei gadw'n ôl, neu ei adennill, yn ddarostyngedig i ofynion a gweithdrefnau statudol perthnasol.

10. Datganiadau Cyfreithiol a Digwyddiadau Risg

10.1 Datganiadau

Mae'r darparwr yn datgan ac yn gwarantu'r canlynol i Medr:

10.1.1 Bod ganddo bŵer, awdurdod, a gallu cyfreithiol llawn i lunio a chyflawni ei rwymedigaethau o dan y telerau ac amodau hyn, a bod yr holl gamau corfforaethol, camau rheoleiddio, neu gamau eraill angenrheidiol wedi cael eu cymryd i awdurdodi gweithredu, darparu, a chyflawni'r rhwymedigaethau hyn.

10.1.2 Na fydd unrhyw gyfyngiad ar bwerau, gallu, nac awdurdod y darparwr yn cael ei dorri o ganlyniad i hawlio neu dderbyn y cyllid, na thrwy greu neu ganiatáu unrhyw sicrwydd neu ymgymeriad a ystyrir gan y Telerau ac Amodau hyn.

10.1.3 Nad yw ac na fydd llunio, cyflawni, a chydymffurfio â'r Telerau ac Amodau hyn gan y darparwr:

(a) yn torri neu'n gwrthdaro â'i ddogfennau cyfansoddiadol neu lywodraethu;

(b) yn torri, gwrthdaro â, na bod yn gyfystyr â digwyddiad diffygdalu neu derfynu (sut bynnag y'i disgrifir) o dan unrhyw gytundeb, gweithred, neu offeryn sy'n rhwymo'r darparwr neu'n effeithio ar unrhyw un o'i asedau; nac

(c) yn torri unrhyw gyfraith gymwys, rheoliad, gofyniad rheoleiddiol, gorchymyn llys, neu gyfarwyddyd swyddogol.

10.1.4 Nad oes unrhyw ddigwyddiad hysbysadwy wedi digwydd nac yn parhau, ac nad oes digwyddiad nac amgylchiadau'n bodoli a fyddai, trwy roi rhybudd, treigl amser, gwneud unrhyw benderfyniad, neu gyfuniad o'r rheiny, yn gyfystyr â digwyddiad diffygdalu neu derfynu (sut bynnag y'i disgrifir) o dan unrhyw gytundeb neu offeryn sy'n rhwymo'r darparwr neu'n effeithio ar ei asedau, o ganlyniad i dderbyn neu ddefnyddio'r cyllid.

10.1.5 Nad oes unrhyw ymgyfreithiad, cymrodeddu, ymchwiliad, nac achos gweinyddol neu reoleiddio yn gyfredol, yn yr arfaeth, neu, hyd y gŵyr y darparwr, yn cael ei fygwth, y gellid disgwyl yn rhesymol iddo gael effaith andwyol sylweddol ar allu'r darparwr i gyflawni neu gydymffurfio â'i rwymedigaethau o dan y telerau ac amodau hyn.

10.1.6 Bod y darparwr wedi datgelu i Medr yr holl ffeithiau ac amgylchiadau perthnasol sy'n angenrheidiol i alluogi Medr i gael darlun gwir, teg, a chywir o fusnes, sefyllfa ariannol, trefniadau llywodraethu, a materion y darparwr (p'un a ydynt yn gyfredol neu'n arfaethedig), ac y gellid disgwyl yn rhesymol iddynt gael eu datgelu i unrhyw unigolyn sy'n ystyried darparu cyllid i'r darparwr.

10.1.7 Bod yr holl wybodaeth a gyflenwyd gan neu ar ran y darparwr i Medr mewn cysylltiad â'r cyllid, boed hynny ar ffurf ysgrifenedig, ffurf electronig, neu ar ffurf arall, ar yr adeg y'i cyflenwyd (neu ar y dyddiad y datganwyd ei bod wedi cael ei rhoi, fel y bo'n berthnasol):

(a) os yw'n ffeithiol, yn wir, yn gyflawn, ac yn gywir ym mhob ystyr berthnasol;
(b) os yw'n amcanestyniad, amcangyfrif, neu ragolwg ariannol, wedi'i pharatoi gyda gofal rhesymol, ar sail gwybodaeth hanesyddol ddiweddar a dibynadwy, a thybiaethau rhesymol;
(c) os yw'n farn, bwriad, neu ddisgwyliad, wedi'i darparu'n ddidwyll ar ôl ystyriaeth briodol a gofalus ac ar sail resymol; ac
(d) nad yw'n gamarweiniol mewn unrhyw ffordd berthnasol, nac yn cael ei gwneud yn gamarweiniol trwy hepgor gwybodaeth berthnasol,

ac eithrio i'r graddau y caiff ei diwygio, ei diweddaru, neu ei disodli wedi hynny gan wybodaeth ddiweddarach a ddarperir i Medr.

10.1.8 Bod y darparwr, yn rhan o'r cynllun cyflawni terfynol, wedi trafod a chytuno ar dargedau perfformiad a deilliannau gyda Medr a'i fod yn cadarnhau, ar ddyddiad y datganiadau hyn, bod y cyfryw dargedau'n rhesymol, yn realistig, ac yn gyflawnadwy.

10.1.9 Nad oes gan y darparwr wrthdaro buddiannau, boed hynny'n wirioneddol, yn bosibl, neu'n ganfyddedig, yn gysylltiedig â'r cyllid, a'i fod wedi datgelu i Medr unrhyw fater a allai arwain at wrthdaro o'r fath.

10.1.10 Na fydd derbyn a defnyddio'r cyllid yn arwain at gyllid dyblyg neu ddwbl yn gysylltiedig â'r gweithgareddau a gynhelir i gyflawni'r dibenion, gan gynnwys (er enghraifft) cyllid a dderbynnir gan unrhyw gronfa Llywodraeth Cymru, cynllun, neu unrhyw gyllidwr cyhoeddus neu breifat arall.

10.1.11 Bod pob datganiad yn cael ei wneud ar ddyddiad derbyn y Telerau ac Amodau hyn ac ystyrir ei fod yn cael ei ailadrodd bob tro y caiff cyllid ei hawlio neu ei ddefnyddio, i'r graddau ei fod yn parhau i fod yn wir, yn gywir, ac yn berthnasol ar adeg yr ailadrodd, o ystyried yr amgylchiadau ar y pryd.

10.2 Digwyddiadau hysbysadwy a'u canlyniadau

10.2.1 Amlinellir y rhestr ddiffiniol a chynhwysfawr o Ddigwyddiadau Hysbysadwy at ddibenion y Telerau ac Amodau hyn yn y Fframwaith Rheoleiddio (Manylion Atodol: Digwyddiadau y Mae'n Rhaid eu Hadrodd).

10.2.2 Dylai fframweithiau llywodraethu mewnol, risg, neu adrodd a weithredir gan Medr neu'r darparwr groesgyfeirio at y Fframwaith Rheoleiddio (Manylion Atodol: Digwyddiadau y Mae'n Rhaid eu Hadrodd) ac mae'n rhaid iddynt beidio â dyblygu nac ymestyn y rhestr o Ddigwyddiadau Hysbysadwy a nodir ynddo.

10.2.3 Mae'n rhaid i'r darparwr hysbysu Medr yn syth pan ddaw'n ymwybodol bod digwyddiad hysbysadwy wedi digwydd neu'n rhesymol debygol o ddigwydd, yn unol â'r gofynion a'r graddfeydd amser hysbysu a amlinellir yn y Fframwaith Rheoleiddio.

10.2.4 Mae Medr yn cadw'r hawl i hysbysu'r darparwr pan fydd Medr o'r farn bod digwyddiad hysbysadwy wedi digwydd neu'n rhesymol debygol o ddigwydd, p'un a yw'r darparwr wedi gwneud hysbysiad o'r fath ai peidio.

10.2.5 Ar ôl i Ddigwyddiad Hysbysadwy gael ei hysbysu neu ei amlygu, bydd Medr yn ymateb yn unol â'r Telerau ac Amodau hyn a, lle bo'n berthnasol, y Datganiad o Bwerau Ymyrryd.

10.2.6 Bydd gan Medr yr hawl i gymryd unrhyw gamau o fewn ei bwerau a'i gyfrifoldebau cyfreithiol yn yr amgylchiadau canlynol:

(a) pan na fydd Medr yn gallu, er gwaethaf ymdrechion rhesymol, ymgysylltu â'r darparwr ynglŷn â'r digwyddiad hysbysadwy neu ei drafod gydag ef; neu
(b) pan fydd Medr wedi hysbysu'r darparwr nad oes modd unioni'r digwyddiad hysbysadwy, yn ei farn ef; neu
(c) na chytunwyd ar ffordd o weithredu sy'n dderbyniol i'r ddwy ochr i fynd i'r afael â'r digwyddiad hysbysadwy neu ei unioni; neu
(d) cytunwyd ar ffordd o weithredu ond nid yw'r darparwr yn ei rhoi ar waith yn llawn, o fewn y raddfa amser sy'n ofynnol, neu gan gydymffurfio ag unrhyw amodau sydd ynghlwm â hi, er boddhad Medr; neu
(e) nad yw'r ffordd gytunedig o weithredu yn unioni'r digwyddiad hysbysadwy er boddhad Medr.

10.2.7 Pan fydd unrhyw un o'r amgylchiadau a amlinellir yn y Telerau ac Amodau hyn yn codi, gan gynnwys y rhai hynny ym mharagraff 10.2.6, caiff Medr, yn ôl ei ddisgresiwn, a arferir yn rhesymol, yn gymesur, ac yn unol ag egwyddorion cyfraith gyhoeddus, a thrwy roi rhybudd i'r darparwr:

(a) dynnu'r dyfarniad cyllid yn ôl neu ei derfynu; a/neu
(b) fynnu bod yr holl gyllid a dalwyd neu ran ohono'n cael ei (h)ad-dalu; a/neu
(c) atal unrhyw daliadau cyllid ychwanegol dros dro, eu cadw'n ôl, neu eu terfynu; a/neu

(d) osod telerau ac amodau ychwanegol neu ddiwygiedig ar unrhyw daliadau cyllid yn y dyfodol; a/neu
(e) ddidynnu unrhyw symiau sy'n ddyledus i Medr o unrhyw gyllid cyfredol neu yn y dyfodol sy'n daladwy i'r darparwr o dan y trefniadau hyn neu unrhyw drefniadau eraill; a/neu
(f) arfer unrhyw hawliau neu rwymedïau eraill sydd ar gael i Medr yn gysylltiedig â'r cyllid.

10.2.8 Mae'n rhaid i unrhyw symiau y mae'n ofynnol eu had-dalu i Medr gael eu talu'n llawn o fewn ugain (20) niwrnod busnes o ddyddiad galwad am dalu ysgrifenedig Medr, oni bai bod Medr yn cytuno fel arall yn ysgrifenedig, gan weithredu'n rhesymol gymesur, a chan ystyried swyddogaethau statudol a chynaliadwyedd ariannol y darparwr.

11. Materion Ffurfiol a Rheolau'r Contract

11.1 Rhoi hysbysiad

11.1.1 Mae'n rhaid i unrhyw hysbysiad sy'n ofynnol o dan y Telerau ac Amodau hyn gael ei roi yn ysgrifenedig. Mae'n rhaid i hysbysiadau beidio â chael eu cyflwyno trwy e-bost yn unig; fodd bynnag, bydd copi PDF neu wedi'i sganio o lythyr llofnodedig ynghlwm wrth neges e-bost yn dderbyniol. Mae'n rhaid i bob hysbysiad ddangos yn glir y pennawd:
"Hysbysiad yn gysylltiedig â dyfarnu cyllid ar gyfer 2026/27 – [Enw'r darparwr]".

11.1.2 Bydd hysbysiadau'n cael eu cyflwyno gan ddefnyddio'r manylion cyswllt canlynol:
Y darparwr: y Swyddog Cyfrifyddu, yng nghyfeiriad cofrestredig y darparwr.
Medr: 2 Cwr y Ddinas, Stryd Tyndall, Caerdydd, CF10 4BZ, Cymru a BuddsoddiadaMonitro@medr.cymru

11.1.3 Ystyrir bod hysbysiad wedi cael ei gyflwyno'n ddilys:
(a) trwy'r post dosbarth cyntaf rhagdaledig: ar yr ail ddiwrnod busnes ar ôl ei bostio;
(b) trwy law: wrth ei ddanfon, neu ar y diwrnod busnes nesaf os caiff ei ddanfon ar ôl 4:00pm neu ar benwythnos neu ŵyl gyhoeddus;
(c) trwy atodiad e-bost: ar yr adeg trosglwyddo, neu ar y diwrnod busnes nesaf os caiff ei anfon ar ôl 4:00pm neu ar benwythnos neu ŵyl gyhoeddus.

11.2 Derbyn dyfarniad cyllid

11.2.1 I dderbyn y dyfarniad cyllid, mae'n rhaid i'r darparwr lofnodi copi o'r Telerau ac Amodau hyn a'i ddychwelyd i Medr o fewn wyth niwrnod ar hugain (28) o ddyddiad y llythyr cysylltiedig neu'r neges e-bost gysylltiedig. Fe allai methiant i wneud hynny arwain at ohirio taliadau neu dynnu'r dyfarniad cyllid yn ôl.

11.2.2 Bydd y dyfarniad cyllid a'r Telerau ac Amodau hyn yn cael eu derbyn ("Derbyn") pan fydd y cynharaf o'r digwyddiadau canlynol yn digwydd:
(a) pan fydd Medr yn cael tudalen dderbyn wedi'i llofnodi a'i gwblhau'n briodol a weithredwyd gan yr holl lofnodwyr awdurdodedig gofynnol;

(b) pan fydd unrhyw hawliad am gyllid, cais am dynnu i lawr, ffurflen, neu gyflwyniad data sy'n dibynnu ar ddyfarnu cyllid yn cael ei gyflwyno gan y darparwr neu ar ei ran; neu
(c) pan fydd unrhyw ran o'r cyllid yn cael ei defnyddio, ei chymhwyso, neu ei gwario.

11.2.3 Pan fydd Derbyn yn digwydd o dan baragraff 11.2.2(b) neu 11.2.2(c), ystyrir bod y Telerau ac Amodau hyn wedi cael eu derbyn yn llawn, er na ddychwelwyd y dudalen dderbyn wedi'i llofnodi eto.

11.2.4 Fel arfer, bydd angen i'r broses o dderbyn y dyfarniad cyllid gael ei gweithredu gan ddau lofnodwr awdurdodedig, sef:
(a) y Swyddog Atebol (neu gyfatebol); a'r
(b) Cyfarwyddwr Cyllid (neu gyfatebol).
Mae pob llofnodwr yn sicrhau ei fod wedi'i awdurdodi'n briodol i rwymo'r darparwr at ddibenion derbyn y Telerau ac Amodau hyn.

11.2.5 Pan fydd y dudalen dderbyn yn cael ei llofnodi gan un llofnodwr awdurdodedig gofynnol yn unig o fewn y cyfnod derbyn a nodwyd, caiff Medr, gan weithredu'n rhesymol ac yn gymesur:
(a) ystyried bod y dyfarniad cyllid wedi'i dderbyn dros dro tra disgwylir yr ail lofnod awdurdodedig;
(b) oedi'r taliad cyllid, ei atal dros dro, neu ei gadw'n ôl hyd nes y caiff y broses weithredu ei chwblhau'n briodol; neu
(c) ildio'r gofyniad am ddau lofnod pan fydd Medr yn fodlon bod gan y llofnodwr awdurdod priodol ac nad oes risg llywodraethu neu sicrwydd o bwys yn codi.

11.2.6 Pan na cheir tudalen dderbyn a weithredwyd yn llawn o fewn y cyfnod a nodwyd gan Medr, caiff Medr, heb ragfarnu unrhyw hawliau neu rwymedïau eraill:
(a) oedi taliadau neu eu hatal dros dro;
(b) gosod amodau gweinyddol rhesymol ar ryddhau cyllid; neu
(c) dynnu'r dyfarniad cyllid yn ôl neu ei ddiwygio,
oni bai bod Derbyn eisoes wedi digwydd yn unol â pharagraff 11.2.2(b) neu 11.2.2(c).

11.2.7 Mae'n rhaid i'r dyfarniad cyllid gael ei dderbyn yn ddiamod. Bydd unrhyw dderbyn honedig sy'n ceisio amrywio, eithrio, amodi, neu wneud yn amodol unrhyw un o ddarpariaethau'r Telerau ac Amodau hyn yn ddi-rym oni bai bod Medr yn cytuno'n unswydd yn ysgrifenedig.

11.2.8 Ni fydd talu cyllid, nac unrhyw oedi neu fethiant gan Medr i fynnu bod y dudalen dderbyn yn cael ei gweithredu, yn gyfystyr ag ildio hawl Medr i orfodi'r Telerau ac Amodau hyn nac yn cael ei drin fel derbyn unrhyw amrywiad, oni bai y caiff ei gadarnhau'n ysgrifenedig.

11.2.9 Wrth Dderbyn, bydd y Telerau ac Amodau hyn yn berthnasol i'r holl gyllid a delir neu sy'n daladwy o dan y dyfarniad ar gyfer y flwyddyn academaidd berthnasol, p'un a chafodd ei dalu cyn neu ar ôl y dyddiad y gweithredwyd y dudalen dderbyn yn llawn.

11.3 Llofnod y Swyddog Atebol

11.3.1 Mae Swyddog Atebol [Enw'r Darparwr] yn cadarnhau ei fod wedi'i awdurdodi'n briodol i dderbyn y dyfarniad cyllid a'i fod wedi cael, deall, a derbyn y Telerau ac Amodau Grant sy'n llywodraethu talu cyllid gan Medr i gorff llywodraethu (neu'r hyn sy'n cyfateb iddo) [Enw'r Darparwr], o arian a ddarparwyd gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg Cymru.

Llofnod .....

Enw .....

Teitl .....

Dyddiad .....

11.4 Llofnod y Prif Swyddog Ariannol

11.4.1 Mae prif swyddog ariannol [Enw'r Darparwr] yn cadarnhau ei fod wedi'i awdurdodi'n briodol i dderbyn y dyfarniad cyllid a'i fod wedi cael, deall, a derbyn y Telerau ac Amodau Grant sy'n llywodraethu talu cyllid gan Medr i gorff llywodraethu (neu'r hyn sy'n cyfateb iddo) [Enw'r Darparwr], o arian a ddarparwyd gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg Cymru.

Llofnod .....

Enw .....

Teitl .....

Dyddiad .....

12. Atodiadau

A. Rhestr Termau

Mae'r Atodiad hwn yn amlinellu diffiniadau a darpariaethau dehongli sy'n benodol i grantiau. Pan na fydd term wedi'i ddiffinio yn yr Atodiad hwn, mae ganddo'r ystyr a roddir yn Rhestr Termau Rheoleiddio Medr.

Blwyddyn Academaidd: Y cyfnod sy'n dechrau ar **1 Awst** mewn un flwyddyn galendr ac yn gorffen ar **31 Gorffennaf** yn y flwyddyn galendr ganlynol.

Cyfrif: Y cyfrif banc a agorwyd ac a gynhelir gan y darparwr gyda banc clirio awdurdodedig yn y Deyrnas Unedig, a ddelir yn enw'r Darparwr, y mae gan y Darparwr yr unig awdurdod a hawliau llofnodi yn gysylltiedig ag ef, neu'r cyfryw gyfrif banc arall ag y gallai Medr ei gymeradwyo'n ysgrifenedig at ddibenion yr Amodau hyn o bryd i'w gilydd.

Swyddog Atebol: Mae iddo'r ystyr a roddir yn y Rhestr Termau Rheoleiddio.

Cyfnod Cyfrifyddu: Y cyfnod ariannol sydd dan sylw yn natganiadau ariannol blynyddol archwiliedig y darparwr, sef, fel arfer, cyfnod o ddeuddeg mis o 1 Awst tan 31 Gorffennaf, oni bai y bo'n ofynnol fel arall yn ôl statud neu safonau cyfrifyddu perthnasol.

Sicrwydd: Mae iddo'r ystyr a roddir yn y Rhestr Termau Rheoleiddio.

Archwiliad: Mae iddo'r ystyr a roddir yn y Rhestr Termau Rheoleiddio.

Diwrnod Busnes: Unrhyw ddiwrnod heblaw am ddydd Sadwrn, dydd Sul, Dydd Nadolig, Dydd Gwener y Groglith, neu ddiwrnod sy'n ŵyl banc yng Nghymru o dan Ddeddf Bancio a Thrafodion Ariannol 1971.

Amodau: Y Telerau ac Amodau a amlinellir yn y ddogfen hon, ynghyd ag unrhyw atodlenni, atodiadau, a chanllawiau cysylltiedig a gyhoeddwyd gan Medr ac a ymgorfforwyd trwy gyfeiriad atynt.

Costau a Gafwyd: Gwariant yn ymwneud â nwyddau a/neu wasanaethau a dderbyniwyd gan y darparwr, p'un a wnaed y taliad erbyn dyddiad yr hawliad cyllid perthnasol ai peidio.

Costau a Gafwyd ac a Dalwyd: Gwariant yn ymwneud â nwyddau a/neu wasanaethau a dderbyniwyd gan y Darparwr ac y talwyd amdanynt yn llawn gan y darparwr mewn arian wedi'i glirio erbyn dyddiad yr hawliad cyllid perthnasol.

Darpariaeth Gymwys: Darpariaeth addysg neu hyfforddiant a gymeradwywyd gan Medr at ddibenion cyllido, fel yr amlinellir yn y *Fframwaith Cyllido Ôl-16: Canllawiau*, y *Cyfeiriadur Rhaglenni*, ac unrhyw ganllawiau cysylltiedig.

Cynllun Cyflawni Terfynol: Y ddogfen gynllunio allweddol a gyflwynir gan y darparwr sy'n amlinellu'r ddarpariaeth addysg bellach brif ffrwd gymeradwy sydd i'w chyflwyno yn ystod y cyfnod cyllido perthnasol.

Sefyllfa Ariannol: Mae iddo'r ystyr a roddir yn y Rhestr Termau Rheoleiddio.

Cynaliadwyedd Ariannol: Mae iddo'r ystyr a roddir yn y Rhestr Termau Rheoleiddio.

FRS: Y *Safon Adrodd Ariannol sy'n berthnasol yn y Deyrnas Unedig a Gweriniaeth Iwerddon*, fel y'i cyhoeddwyd gan y Cyngor Adrodd Ariannol.

Corff Llywodraethu (neu'r Hyn sy'n Cyfateb Iddo): Mae iddo'r ystyr a roddir yn y Rhestr Termau Rheoleiddio.

Grant: Y cyllid a ddyfernir gan Medr i'r darparwr o dan y Telerau ac Amodau hyn.

Ansolfedd: Mae iddo'r ystyr a roddir yn y Rhestr Termau Rheoleiddio.

Dysgwr: Mae iddo'r ystyr a roddir yn y Rhestr Termau Rheoleiddio.

Monitro: Mae iddo'r ystyr a roddir yn y Rhestr Termau Rheoleiddio.

Mis: Mis calendr.

Digwyddiad Hysbysadwy: Mae iddo'r ystyr a roddir yn y Rhestr Termau Rheoleiddio, fel y'i cymhwysir a'i chyfyngir gan Atodiad B i'r Telerau ac Amodau hyn.

Personél: Swyddogion, cyflogeion, llywodraethwyr, ymddiriedolwyr, contractwyr, is-gontractwyr, asiantiaid, a chyflenwyr y darparwr, ac unrhyw unigolion eraill a gymerir ymlaen neu a benodir gan y Darparwr mewn cysylltiad â'r dibenion a ariennir.

Darparwr: Mae iddo'r ystyr a roddir yn y Rhestr Termau Rheoleiddio.

[Enw'r Darparwr]: Y sefydliad penodol a enwyd y dyfernir y grant iddo.

Risg: Mae iddo'r ystyr a roddir yn y Rhestr Termau Rheoleiddio.

Digwyddiad Difrifol: Mae iddo'r ystyr a roddir yn y Rhestr Termau Rheoleiddio.

Gwerth am Arian: Y cyfuniad gorau o gostau oes gyfan ac ansawdd (neu addasrwydd i'r diben) i fodloni'r amcanion perthnasol, o ystyried darbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd.

Ni / Ein: Mae hyn yn golygu Medr.

Cyfeiriadau Ariannol (Cymal Dehongli): Bydd cyfeiriadau at y *sefyllfa ariannol, datganiadau ariannol, ymrwymiadau ariannol*, neu *fenthyca* darparwr, lle bo'n berthnasol, yn cael eu dehongli'n gyfeiriadau at sefyllfa'r darparwr ar sail gyfunol, gan gynnwys unrhyw is-ymgymeriadau fel y'u diffinnir yn Neddf Cwmnïau 2006, neu ar sail endid penodol fel arall, a baratowyd yn unol ag ymarfer cyfrifyddu a dderbynnir yn gyffredinol yn y Deyrnas Unedig ac unrhyw ofynion cyfrifyddu perthnasol Medr neu rai statudol.